YR YMOFYNYDD.

RHIF. 25.] MEDI, 1849. [CYF. II.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD, ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."---GOL.

EGLWYS LOEGR AC AIL-ENEDIGAETH BABANOD TRWY FEDYDD.

Y MAE yn adnabyddus ond odid i'n darllenwyr fod llawer iawn o Offeiriaid ac eglwyswyr zêlog a'r nad ydynt yn credu yr athrawiaeth o adenedigaeth babanod trwy fedydd. Nis gallwn eu beio am hyny. Y mae yn eithaf gwrthun i feddwl fod gweinyddu yr ordinhâd o fedydd ar faban, yn gwneuthur cyfnewidiad yn nghyflwr y baban hwnnw a'i sefyllfa ger bron Duw. Nid yw yr ysgrythyr yn rhoddi un lliw o debygolrwydd i'r fath ddisynwyrdeb. Mae'n wir os gellid cyfrif pechod Adda i'r baban, y gellid yn un mor gyfiawn gyfrif cyfiawnder Crist iddo hefyd. Ond nid yw bod dau wrthuni ynghŷd, ddim yn gwneuthur y peth yn llai anghyson ac anghredadwy: nis gall dau gelwydd wneud i fynu wirionedd. Pe buasid wedi cyfrif i'r baban bechodau a'r nas cyflawnodd, ac yn ganlynol ei drin fel pechadur; yna buasai cyfiawnder yn gofyn i symud y cam yn ddioed heb aros am gyfryngwriaeth Offeiriad. Ein cred ni yw nad oes un sail pa bynag, nac mewn rheswm nac ysgrythyr, i'r dŷb fod plant yn dyfod i'r byd dan felldith deddf Duw; eithr y gwrthwyneb. Rhaid i ni adael i eraill i geisio cysoni eu hanghysondebau fel y gallont. Nid ein hamcan yn bresennol yw dangos anghysondeb neu anysgrythyroldeb yr athrawiaeth, ond yn unig i gyfeirio y darllenydd at y *fact* fod llawer iawn o Offeiriaid yr Eglwys, y rhai ydynt o syniadau Calfinaidd, ac yn credu yn y pechod gwreiddiol, a'r iawn, ac mewn cadwedigaeth babanod; ond etto yn gwrthod yr athrawiaeth o adenedigaeth babanod trwy fedydd, fel y maent hefyd yn gwadu awdurdod yr Offeiriad i ollwng pechodau'r claf; er bod yr athrawiaethau hyn yn gynnwysedig yn yr Erthyglau ag y maent wedi *subscribo* eu bod yn eu credu.

Y mae ymron can mlynedd oddiar pan y dywedodd Arg. Chatham yn Nhy yr Arglwyddi, "Y mae genym Gredo Galfinaidd, Gweddi Gyffredin Babaidd ac Offeiriaid Arminaidd." Oddiar hyny y mae cyfnewidiadau wedi cymeryd lle yn yr eglwys fel yn rhànau eraill o'r wladwriaeth. Ond fel prawf, tebygid, fod Cranmer a Harri viii. wedi gwneuthur gwaith *perffaith*, y mae *constitution* yr Eglwys yn para yn ddigyfnewid. Y mae yr hyn oedd Galfinaidd pryd hyny, yn Galfinaidd etto; a'r hyn oedd Babaidd pryd hyny yn Babaidd etto. Ni waeth beth fyddo y goleuni a gafwyd trwy ymchwiliadau duwinyddol tri chan mlynedd; y peth a benderfynwyd arno

ar y tarawiad allan o dywyllwch Pabyddiaeth, hyny sydd i gael sefyll. Megis yr oedd yn y dechreuad hwnw, y mae yr awr hon. Ond, pa hyd? Dyma'r gofyniad sy'n cyfodi o galonau miloedd. Y mae amgylchiadau fel yn dangos fod y gofyniad ar y ffordd o gael ei ateb, a hyny cyn bod yn hir.

Y mae enciliad yr Anrhydeddus Baptist Noel wedi tynu sylw cyffredinol. Ac y mae Offeiriaid eraill wedi dilyn ei esiampl, wedi bod fel yntau yn hir gloffi rhwng dau feddwl. Ond pa un a gymerant eu hail-fedyddio fel yntau, rhaid i ni aros ryw faint cyn cael gwybod. Pa fodd bynag y mae cannoedd os nad miloedd o Offeiriaid yn yr Eglwys ag oedd Mr. Noel rai blynyddau yn ol yn fâth o flaenor iddynt, y rhai, dan yr enw "Evangelicals," ydynt wedi bod fel yntau yn dysgu i'w praidd nad yw yr athrawiaeth o adenedigaeth babanod trwy weinyddiad bedydd arnynt, ddim ond un o weddillion y cyfeiliornad Pabaidd; ar yr un pryd nad yw eu cydwybodau yn eu rhwystro i *subscribo* canonau yr Eglwys, yn y rhai, tybid, y mae'r athrawiaeth wedi ei gosod i lawr yn bur amlwg ac mewn geiriau pendant.

Y mae y blaid yma wedi bod yn ddiweddar yn sefyll ar eu hamddiffyniad, yn mherson un Mr. Gorham, Offeiriad yn Esgobaeth Exeter: ac y mae y ddedfryd wedi ei rhoddi yn eu herbyn. Esgob Phillpots fu yr offeryn pennaf i ddwyn hyn oddi amgylch. Yr oedd Mr. Gorham wedi bod ys blynyddau yn gweinidogaethu dan ei esgobaeth, gyda zêl a mawr gymeradwyaeth ei blwyfolion. Yn ddiweddar chwenychodd gael symud i bersoniaeth arall, a ddywedir ei bod yn dwyn i mewn lai o elw; Bemford Speke, yn yr un esgobaeth: nid oedd dim yn eisiau tuag at gyflawni ei ddymuniad, ond yn unig i gael caniattâd yr Esgob, fel *matter of form.* Yr Esgob yntau yn gwybod mai un o'r "Evangelicals" ydoedd yr ymgeisydd, a ddefnyddiodd y cyfleustra a roddid iddo i wneud ymchwiliad i iachusrwydd ei ffydd, ar y pwngc o adenedigaeth yn enwedig. Yr oedd Mr. Gorham yn barod i wneuthur yr hyn oedd y gyfraith yn ei ofyn wrth gael meddiant o fywioliaeth eglwysig newydd, sef, *subscribo* yr erthyglau o'r newydd, a thystio ei gydsyniad calonog â'r hyn oll sydd yn y canonau a'r *Rubrick.* Gwnaethai hyn o'r blaen, a llawer eraill gydag ef, trwy gymeryd y geiriau ynghylch bedydd ac adenedigaeth babanod mewn *ystyr dau-feddwl*, ac felly yn boddloni ei gydwybod. Ond hyn ni foddlonai Dr. Phillpots; gofalodd efe fod ei holiadau wedi eu geirio yn y fath fodd fel nad oedd un lle i'w cymeryd mewn ystyr dau-feddwl, nac un ffordd i gilio rhagddynt. Gorfu ar Mr. Gorham addef nad oedd ef yn credu yn yr adenedigaeth trwy fedydd: ac yna gwrthododd yr Esgob roddi ei ganiattâd. Yr oedd yr Offeiriad siomedig a'i bleidwyr yn tybied ei fod wedi cael cam: dygwyd y matter o flaen llŷs yr Arch-esgob, yn y *Court of Arches*, ac yno aeth y treial yn ei erbyn ef, a chadarnhawyd awdurdod a duwinyddiaeth Esgob Phillpots. Gall y sawl sydd yn gywraint mewn pethau perthynol i ddysgyblaeth a duwinyddiaeth yr Eglwys, gael boddhâd ond odid wrth ddarllen yr adroddiadau a roddwyd yn y Dyddiaduron o areithiau ac ymresymiadau yr ymbleidwyr dros ac yn erbyn yr achwyniad, am chwe' diwrnod, o bryd i'w gilydd yn ystod term y Pasg.

Nis gallwn yn bresennol ond nodi ddarfod i'r Barnwr Syr H. J. Fust, ar y 2ed. o Awst draddodi ei farn benderfynol ar y cwestiwn a ddygwyd o'i flaen, sef effeithioldeb bedydd ar fabanod. Dywedodd ei fod am ochelyd pob ymddangosiad o'i fod ef yn cynnyg ei opiniwn ei hun ar bwngc o dduwinyddiaeth ag oedd pleidiau yn dadleu yn ei gylch. Nad oedd ef yn cyhoeddi ei opiniwn, pa un ai oedd adenedigaeth diammodol mewn perthynas i fabanod, yn athrawiaeth ysgrythyrol ai peidio. Swydd y Llys oedd gweinyddu y gyfraith fel y mae wedi ei gosod i lawr, ac nid o roi opiniwn pa beth ddylai y gyf-

raith fod. Aeth y Barnwr wedi'n trwy y gwahanol holiadau a roddwyd gan yr Esgob, ynghyd âg atebion Mr. Gorham iddynt, gan wneuthur sylwadau ar yr amrywiol awdurdodau a ddygid o'r naill du neu'r llall. Nad oedd opiniynau personau neillduol pa mor ddysgedig bynag, neu pa mor enwog bynag am eu duwioldeb neu ragoriaethau eraill, ddim idd eu hystyried—fod yn rhaid i'r Llŷs yn unig i edrych at weithredoedd a dadganiadau cyhoeddus yr Eglwys. A oedd unrhyw amheuaeth ar y cwestiwn o fedydd babanod yn yr erthyglau? Fod y 25ain a'r 27ain erthygl yn dadgan am Sacramentau Bedydd a Swpper yr Arglwydd, 'fod ganddynt effaith neu weithrediad iachus, yn y cyfryw a'r sydd yn eu derbyn yn deilwng.' Bod gweinyddiad y Sacrament yn gyflawn wedi bedyddio'r baban, pe amgen, os byddai byw a'i ddwyn i'r Eglwys, y byddai yn rhaid i'w fedyddio drachefn. *Mai rhànau hanfodol bedydd ydynt y dwfr a'r geiriau.* Ei fod yn wir os byddai i blentyn fyw a chyflawni pechod gweithredol, a chyrhaeddyd oedran i allu deall addewidion Duw ac i edifarhau, y dichon iddo fyned drosodd o'r doniau a dderbyniodd yn y bedydd, a syrthio i gyflwr, a fydd yn gofyn ffydd ac edifeirwch, ond *nid i'w adgenedlu*, oblegid yn ol dadganiad yr Eglwys, y mae hyny wedi ei wneuthur eisioes.

Ymddangosai i'r Barnwr, nad oedd adenedigaeth, fel ei dysgir yn ngwasanaeth Bedydd, yn cynnwys y fath gyfnewidiad trwyadl o'r caracter a fydd yn dyfod i fynu ymron i gyfiawnhâd ac oddiwrth yr hwn nid allai y sawl oedd wedi ei ail-eni felly, ddim syrthio oll; ond ei fod yn cynnwys cyfnewidiad perthynas, gosod y bedyddiedig mewn sefyllfa newydd, yn yr hon "y gwnaed ef yn aelod i Grist, yn blentyn i Dduw ac yn etifedd Teyrnas Nefoedd." Nid oedd Llys yr Arch-esgob yn llettya yr amheuaeth leiaf, oddiar eiriau y ffurfiau gwasanaeth eu hunain, fod y baban yn cael ei ail-eni yn a thrwy foddion bedydd.

Purion, Syr Herbert. Nid y'm yn ammeu cywirdeb eich penderfyniad: y y mae'r erthyglau a geiriau y gwasanaeth yn gryf o'ch ochr. Os nad gwir yw fod babanod yn cael eu hail-eni yn y bedydd, y mae yn llawn bryd i ail-wneud y llyfr gweddi gyffredin.

Fel hyn y penderfynwyd, mor belled ag y gall llys eglwysig benderfynu, er fod Mr Gorham yn rhydd i bara, tra y gwelo yn dda, i lygru ei braidd presennol â'i athrawiaeth gyfeiliornus, fod yn rhaid o leiaf ei rwystro rhag dwyn ei heresi i mewn i gorlan newydd. Ond nid yw y penderfyniad, ar ôl y cyfan, yr y'm yn clywed, yn penderfynu dim, o herwydd mae rhyddid i appelio. Y llys o uweh na'r *Court of Arches* yw *Privy Council* y Frenhines, yn gynnwysedig fwyaf o wŷr lleyg, y rhai a fyddaut i benderfynu yn ddiweddaf ar gwestiwn ag sydd yn dwyn perthynas â sylfaen crediniaeth grefyddol.

Y mae amgylchiadau'r ddadl yn taflu goleu neillduol ar y caethiwed y dalir Eglwys Loegr yuddo mewn canlyniad i'w chysylltiâd â'r llywodraeth, a'r llyfetheiriau a osodir ar yr Offeiriadaeth sefydledig i'w rhwystro rhag pob taer ymchwiliad crefyddol. Ni ellir gwadu nad yw adenedigaeth yn un o byngciau sylfaenol Cristnŏgrwydd. Dygwyd yr oruchwyliaeth Gristnogol i mewn pan yr oedd y byd yn gorwedd mewn anfoesoldeb a llygredigaeth ymron digyffelyb. Ac y mae yn amlwg i'r neb a ddarlleno y Testament Newydd, fod yr iechydwriaeth a gynnygir—y cyfnewidiad moesol ag y mae yn ei ddwyn oddiamgylch—yn cael ei ddarlunio yn aml iawn fel egwyddor o fywyd newydd, ac ail-enedigaeth neu adgenhedliad ar ddelw Duw.

Ynghylch natur y cyfnewidiad mawr a'r modd yr effeithir ef, gwyddys fod duwinyddion yn gwahaniaethu: y rhan fwyaf a dybiant fod Ysbryd Duw yn gweithredu yn wyrthiol, neu o leiaf mewn modd goruchnaturiol ar droedigaeth neu adenedigaeth pechadur: eraill a gredant yn nigonoldeb yr amlygiad perffaith o'r anian ddwyfol a roddwyd unwaith yn

Nghrist; ei fod fel hâd bywiol ag sydd dan ofal rhagluniaeth o oes i oes yn cael lle i wreiddio yn nghalonau dynolryw, fel mewn tir addasedig, ac yn dwyn ffrwythau daionus, y rhai a drosglwyddir o genedlaeth i genedlaeth yn unol a chyfreithiau sefydlog y byd moesol. Y mae bedydd, fel ordinhadau eraill, yn arwyddocäol o brif amcan yr Efengyl, sef bywyd ac anian dduwiol; ond beth bynag a feddylir am y dull a'r modd y mae'r anian hon yn cael ei plànu a'i meithrin, pa un ai yn raddol, neu ar unwaith, tebygwn nad oes neb, oddieithr Pabyddion ac eraill sy'n gaethion i draddodiadau, a feddylia, fod y cyfnewidiad moesol yma yn cael ei effeithio trwy weinyddiad sacramentau, pa un ai ar ddynion mewn oedran, neu ynte ar fabanod. Y mae yn digon i beri gwên i glywed dyn pwyllog a dysgedig fel Syr H. J. Fust yn cyhoeddi ei benderfyniad fod adenedigaeth babanod trwy fedydd, yn athrawiaeth sylfaenol yr Eglwys y mae efe yn farnwr ynddi—a bod hanfod (essence) y bedydd effeithiol yma yn gynnwysedig yn "y dwfr a'r geiriau" a ddefnyddir. Pa beth yn fwy ddywed y Pabyddion yn Nghymanfa Trent am effeithioldeb eu Sacramentau?* Ond teg yw cadw mewn côf i'r Barnwr dysgedig dywedyd, mai ei swydd ef oedd esbonio y gyfraith Eglwysig, fel ag y mae; nid fel y dylai fod.

Pa beth a wna yr "Evangelicals"—y blaid luosog yn yr Eglwys ag sydd o'r un farn ar y pwngc a Mr. Gorham? Dygir yr appêl, mae'n debyg, cyn hir o flaen a *Privy Council.* Yn y cyfamser bydd cyffro a disgwyliad parhaus yn mhlith pleidiau crefyddol. Caiff "Fly Sheets" y Wesleyaid ond odid fyned gydâ'r gwynt ar y fath gyfnod pwysig a hwn. Nid ydym yn meddwl y bydd i'r *Privy Council* groesi penderfyniad Syr H. J. Fust, ac wrth hyny ddymchwelyd sylfeini darfodedig yr Eglwys. Gormod o orchwyl, tybiwn, fyddai iddynt ei hail-adeiladu. Pwy ymfalchiai o fod yn Eglwyswr—o leiaf, pwy garwr rhyddid a chydwybod dda? Gyda'r holl ddirmyg sydd yn nglyn âg ymneilldduaeth ynghyd a'n hamrywiol amherffeithiau sy'n galw am wellhâd, ystyriwn hi yn fraint anghydmarol ein bod yn gallu rhodio llwybr crefydd a defnyddioldeb, â'n cydwybod a'n traed yn rhŷdd.

Tybiwyd unwaith mai y peth goreu yn y byd er cadw tawelwch yn yr Eglwys ac yn y byd crefyddol, oedd cyfraith y Cyd-ymffurfiad. Bu y gyfraith honno a wnaethpwyd ar ddychweliad Charles II. yn achlysur i beri i ddwy fil o Offeiriaid roddi i fynu eu bywioliaethau eglwysig ar un waith, ac i ddewis tlodi ac erledigaeth gyda chydwybod dda, yn hytrach na chadw distawrwydd rhagrithiol yn eu sefyllfäoedd cysurus. Y gweinidogion mwyaf dysgedig, llafurus a chydwybodol a feddai yr Eglwys oedd y dynion hyn—tadau anghydffurfiaeth. Darfu i'r aberth a offrymasant ar allor cydwybod, ynghyd a'u hymarweddiad cydwybodol yn ôl llaw, a'u llafur a'u dioddefiadau ddwyn effaith iachusol ar eu hoes a'u cenedlaeth, ac ar oesoedd a chenedlaethau canlynol. Ac y mae yr amrywiol eglwysi ymneilldduedig ar hyd a llêd ein gwlad yn gof-adail o'u llafur ac o'u llwyddiant. Er ychwanegu cyfreithiau erledigaethus eraill, y *Test and Corporation Acts*, a'r *Five Mile Act*, i attal a llethu ymneilldduaeth, methwyd yn yr amcan: ac y mae'r cyfreithiau hyny wedi eu dilëu er ys talm. Ond y mae cyfraith y cydymffurfiad yn para mewn grym, yn fagl i gydwybodau Eglwyswyr ac yn rwystr i rydd a thaer ymchwiliad crefyddol. Y mae wedi methu etto i wneud hyd yn oed yr Offeiriaid o'r un farn ar rai o byngciau pwysiccaf crefydd.

Heblaw yr anghyttundeb rhwng Puseyaeth a Phrotestaniaeth, Arminiaeth a Chalfiniaeth, y mae'r gair wedi myned i maes, ac nis gellir ei wadu, fod anffyddiaeth yn dechreu ffynnu i raddau

* Gwel y Traethawd ar Egwyddor Pabyddiaeth, yn ei gwahanol ymddangosiadau, ddim ond adfywiad o Ysbryd Paganiaeth, yn Rhifyn Mehefin, tudal 124.

mawr ymhlith y dynion ieuaingc yn y Prif-athrofaoedd ag sydd wedi cael eu dwyn i fynu dan ddisgyblaeth dduwinyddol Pusey a'i blaid. Gyda'r holl gyfoeth, a'r holl urddas, a'r holl awdurdod a dysgeidiaeth sydd yn meddiant yr Eglwys sefydledig, y mae peryglon yn ei chylchynu: y mae fel "tŷ wedi ei ràn yn ei erbyn ei hun." Ymddengys fod dydd ei phrawf yn neshâu.

Er mwyn anrhydedd crefydd a proffes grefyddol gobeithiwn y ceir gweled hefyd gysondeb rhwng proffes ac ymddygiad: ac na fydd y corff o Offeiriaid Efangylaidd (fel eu cyfenwir) ddangos i'r byd yr esiampl warthus o aberthu eu cydwybod a'u hargyhoeddiadau crefyddol er mwyn elw ac esmwythder.

I.

GWIRIONEDD GRISTNOGRWYDD—GWRTHDDADLEUON.

Mr. Ymofynydd,—Wele fy ysgrif olaf ar wirionedd Cristnogrwydd, am hyn o dro o leiaf; feallai mai yr olaf am byth: Awdwr bywyd yn unig a ŵyr, a gŵyr hefyd yr hyn sydd oreu, a'r hyn sydd oreu a wnâ. Ond at y gwrthddadleuon.

2. Y mae haeriad Paine etto mewn perthynas i rifedi y dynion a welsant Iesu ar ol ei adgyfodiad, ynghyd a'r amser y dywed i'r cwbl gymmeryd lle, mor hollol ddisail a'r hyn fu dan ein sylw yn barod. Dywed mai dim ond wyth neu naw o ddynion sydd i fod yn ddirprwywyr dros yr holl fyd, ac i'r cyfan gymmeryd lle mewn tri neu bedwar diwrnod, yr amser, yn ol ei gyfrif ef, o ddioddefaint Crist i'w esgyniad; a dywed hefyd i hyn oll gymmeryd lle yn agos i'r un fan, sef Jerusalem. Pa fodd y gallasai Mr. Paine ddywedyd hynny a bod yn ddyn gonest nis gwn. Yn lle ymddangos i wyth neu naw, ymddangosodd i'r un disgybl ar ddeg ar unwaith, i'r rhân fwyaf o'i ddisgyblion wedi hynny; ac i fwy na phum cant brodyr ar unwaith medd Paul. Ac am yr amser; tri neu bedwar diwrnod!! Dywed Ioan i'r Iesu ymddangos i'w ddisgyblion yn Jerusalem; ymhen *wyth* diwrnod wedi hynny, ymddangosodd iddynt wrth fôr Tiberias, tua 60 neu 70 milldir o Jerusalem. Dywed Luc yn yr Actau, iddo ymddangos i'w apostolion yn fyw wedi iddo ddioddef, trwy lawer o arwyddion sicr; gan fod yn weledig iddynt dros *ddeugain* niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw." Ble wyth neu naw o dystion, o *broxies* sydd yma; ai wyth neu naw yw 500; ai yr un fan yw Jerusalem a Mor Tiberias, 60 milldir oddiyno; ai 3 neu 4 niwrnod yw deugain.? Mawr y mae Paine yn achwyn ar yr efengylwyr am golli ond awr neu ddwy o'r hwyaf, wrth roddi hanes ymweliad y gwragedd a'r bedd; tra nad yw ddim yn ei olwg ef i golli canoedd mewn rhif, ac ugeiniau o *ddiwrnodau*, nid *oriau*, mewn amser. Ond nid oedd ganddo fibl, a thyma'r achos.

3. Dywed Paine etto, "mai athrawiaethol oedd yr ysgrifeniadau a briodolid i'r apostolion, ac y mae prudd-der y testun y maent yn aros arno, ebefe, sef dyn yn marw mewn ing ar y groes, yn fwy addas i gyrhaeddiadau pruddaidd monach yn ei gell, gan yr hwn nid yw'n amhossibl y cawsant eu hysgrifenu, nag i un dyn yn anadlu awyr agored y greadigaeth" Ymhellach dywed, fod y rhannau hynny yn y Testament Newydd, ar y rhai y mae "holl gyfundrefn neu athrawiaeth yr hyn a elwir prynedigaeth wedi ei adeiladu, wedi cael eu dyfeisio a'u llunio, i'r pwrpas i ddwyn oddiamgylch brynedigaeth arianol eglwys Rhufain. Pa'm y dylem gredu yr eglwys hon pan yn dywedyd fod y llyfrau hynny yn bur ymhob rhan, mwy nag y credwn hi mewn dim arall a ddywed hi wrthym: am y gwrthiau a ddywed ei bod wedi eu cyflawni? Y gallasai hi lunio ysgrifeniadau sydd sicr, oherwydd gallasai ysgrifenu; ac y mae cyfansoddiad yr ysgrifeniadau dan sylw y fath,

ag a allasai rhyw un ei gyflawni: *iddi eu llunio*, nid yw yn fwy anghysson â thebygolrwydd nag iddi ddywedyd wrthym, fel y gwnaeth, y gallasai wneuthur gwyrthiau, ac iddi eu gwneuthur." Y mae Mr. Paine yma etto yn euog o goll cywilyddus mewn amser. Dywed i'r athrawiaeth Gristnogol gael ei ffurfio er mwyn dwyn arian i goffrau yr eglwys, tra na ddarfu i'r athrawiaeth o faddeuant am dâl gael ei dwyn i mewn i'r eglwys hyd yr oes dywyll, oes pabyddiaeth. Y mae'n awgrymu hefyd mai gan fonach yr ysgrifenwyd gwaith yr Apostolion. O ble y cafodd le i ddywedyd hyn, lle mae pob llinell yn eu gwaith yn groes i babyddiaeth, yn erbyn cau eu hunain mewn *celloedd* fel y gwna monachod; yn erbyn gwahardd priodi, ymattal oddiwrth fwydydd &c. Y mae ei waith yn priodoli pob anwybodaeth ond dysgu ychydig ieithoedd marw i Gristnogrwydd hefyd, yn dangos ei anwybodaeth ef yn hollol. Dylasai wybod na fu'r byd erioed o'r blaen yn fwy goleu nag yn amser boreu Cristnogrwydd, ac felly y parhaodd hyd oresgyniad Rhufain gan y Barbariaid Gogleddol; *dyma'r* pryd y darfu i'r oesoedd tywyll ddechreu, yr achwyna ef gymmaint arnynt. Ac oni bai y monachod, er cynddrwg oeddent, i gadw gwaith enwogion Groeg a Rhufain ar glawr, ni fuasem ni yn gallu yn awr ddarllen areithiau hyawdl *Cicero*, a *Demosthenes*, na phrydyddiaeth gyffrous *Homer*; na hanes bywiog *Xenophon* a *Herodotus*; heb son am *Socrates*, *Plato*, *Pythagoras*, *Euripides* a lluoedd eraill. Felly yn lle bod yn achos o bob anwybodaeth, hwy fuont yn achos, yr unig achos i gadw gwybodaeth i ni. Ond efallai nad oedd ganddo ef fawr diolch am hyn, o herwydd mai mewn ieithoedd marw y mae'r llyfrau hyn wedi eu hysgrifenu. Ond dylasai wybod mai nid *marw* oeddent *pryd hynny*. os marw yn awr. Ond yn lled debyg, ni wyddai ef ddim am yr ieithoedd hyn, a pha fodd y gallasai ddywedyd yn dda am danynt, mwy na'i ganlynwyr y rhai ni wyddant ddim am danynt yn awr.

Cyn gadael Paine, y mae'n rhaid i mi ddywedyd fy mod yn cyttuno yn hollol ag ef mewn perthynas i ddirgelwch mewn crefydd; ond ar yr un pryd, ymddengys i mi nad oedd ef yn deall dim beth oedd ystyr y gair *dirgelwch*, fel yr arferir ef yn y Testament Newydd ac nid yw hyn yn ryfedd, gan ei fod yn dywedyd, nad oedd un beibl ganddo.

Yr wyf ymhellach etto yn cyttuno a Paine i wrthod athrawiaethau y Drindod, Yr Iawn, cenhedliad gwrthiol Crist; ond nid wyf yn uno ag ef i briodoli dim o'r rhain i Gristnogrwydd, gan nad oes yr un o honynt i'w cael yno. Yr wyf yn cyttuno ag anghredinwyr hefyd i ddywedyd yn erbyn rhyfeloedd sanctaidd, fel eu gelwid, a phob rhyfel arall; ond yr wyf yn *protesto* ei bod yn anheg iawn ynddynt i briodoli y rhain i Gristnogrwydd, yr hon sydd mor groes i bob peth o'r fath. Dangosent, os gallant, fod Cristnogrwydd yn cefnogi'r fath beth, cyn gwneuthur y fath haeriadau brawychus a wna rhai o honynt. Dywed Elihu Palmer fod Iesu Grist yn fwrddwr mewn egwyddor; a'r unig sail oedd ganddo i'r fath haeriad, yw deall geiriau Crist yn eu hystyr lythyrenol, pan y dywed "Na ddaeth i ddanfon heddwch ond cleddyf ar y ddaear." Lle nad yw Crist yn meddwl dim yn rhagor yma, nag y byddai i elyniaeth rhai *eraill* gael ei ennyn yn erbyn y Cristnogion druain, a'u cablu, a'u herlid, a'u llâdd: a thyma fel y bu: ac felly yr oedd Crist yn brophwyd o leiaf, hyd y nod yn ol Elihu Palmer ei hunan.

Ymhellach etto yr wyf yn cyttuno a Paine yn y *caracter* y mae ef yn roddi i Grist. "Yr oedd ef," meddai Paine "yn ddyn rhinweddol a chariadus. Yr oedd y moesoldeb a bregethai ac a arferai o'r fath fwyaf daionus." Hyd yma yr wyf yn uno a Mr Paine yn hollol, ond nis gallaf addef yr hyn a ganlyn; "ac er fod *systems* cyffelyb o foesoldeb wedi cael eu pregethu o'r blaen gan Confucius, a rhai o philosophyddion Groeg, lawer o flynyddau cyn hynny; gan y Quakers wedi hynny, a chan lawer o ddynion da ym-

hob oes, *ni ddarfu i neb ragori arno* (*it has not been exceeded by any*"). Oddiwrth hyn y mae'n amlwg fod *moesoldeb* Crist o'r radd uchelaf; "a r fath fwyaf daionus; *ni ddarfu i neb ragori arno.*" Ym mha le y cafodd Paine hyn allan? Wel, yn hanes yr efengylwyr: nid oes un man arall i'w gael: a chan ei fod yn credu hyn, y mae'n rhaid iddo gredu rhagor; oblegid os oedd moesoldeb Crist o'r fath fwyaf daionus, fel na ddarfu i neb ragori arno, y mae'n canlyn yn anocheladwy mai prophwyd Duw, mai'r Crist oedd Iesu o Nazareth. Y mae ef ei hun yn dywedyd hyn yn bendant, 'Myfi yw efe," ebe'r Iesu ragor nag unwaith. Y mae'r Iesu yn dywedyd hefyd wrth yr Iuddewon anghrediniol, "Oni chredwch fi, credwch fi er *mwyn y gweithredoedd eu hunain.*" "Y *Tad* yr hwn sydd yn aros ynnof, *efe* sydd yn gwneuthur y *gweithredoedd.*" Felly os oedd yr Iesu yn ddyn ag oedd yn *rhagori* mewn moesoldeb, y mae'n rhaid ei fod yn gwneuthur gwyrthiau, fel y tystia ef ei hun; oblegid nid moesoldeb, nid *rhagori* mewn moesoldeb yw dywedyd anwiredd, a wyddai mai anwiredd oedd ar y pryd os nad oedd wedi gwneuthur un gwyrth. Yn awr gadawaf Paine i'w ganlynwyr ei ymddiffyn os y gallant; ac âf ymlaen yn

4. I sylwi ar rês o wrthddadleuon eraill a wnair i'r grefydd Gristnogol; neu yn hyttrach i wyrthiau Crist. Ni chaf sylwi ar ragor nag un o honynt fel esiampl o'r cwbl; sef i'm tyb i, yr un mwyaf agored i wrthddadl; gwaith Crist yn melldithio'r ffigysbren. Yr hanes yn efengyl Marc sydd fel y canlyn: "Ac wedi iddo ganfod o hirbell ffigysbren ag *arno ddail*, efe a aeth i edrych a gaffai ddim arno. A phan ddaeth atto, ni chafodd efe ddim ond y dail: canys nid oedd amser ffigys." Cyn sylwi dim ar y geiriau hyn chwi oddefwch i mi, er mwyn gwneuthur y synwyr yn fwy amlwg, i symmud y rhan olaf o'r adnod a'i gosod ar ol y ddosran flaenaf; gwnair hyn yn aml mewn mannau eraill. Yn ganlynol, fel hyn yr wyf yn dewis ei darllen: "Ac wedi iddo ganfod o hirbell ffigysbren ag arno ddail, efe a aeth i edrych a gaffai ddim arno; canys nid oedd amser ffigys etto. A phan ddaeth atto, ni chafodd efe ddim ond y dail." Oddiwrth y geiriau hyn gofynir y cwestiynau canlynol, y rhai a ymdrechaf atteb.

1. Pa fod y gallasai Crist ddisgwyl cael ffigys, ag yntau yn dywedyd ei hun nad oedd yn amser ffigys?

2. Pa hawl oedd gan Iesu i gymmeryd ffigys, pe buasai rhai arno?

3. Pa fodd y gallasai felldithio eiddo arall, a pha ddaioni allasai melldithio ffigysbren ei atteb? Ond yn—

1. Pa fodd y gallasai Crist ddisgwyl cael ffigys, ag yntau yn dywedyd fod amser ffigys heb dd'od? "Nid oedd amser ffigys."—Dywed Woolston fod yr Iesu wedi dangos cymmaint o nwydau drwg a phe byddai dyn yn taflu'r cadeiriau a'r stolau yr holl dy, am na fyddai ei giniaw yn barod mewn pryd: ac fod yma gymmaint o ffolineb hefyd, a phe byddai dyn yn myned i'w ardd i ymofyn afalau yn y pasg, a chwedi methu cael dim, fel nas gallasai, yna yn torri i lawr holl breniau ei ardd.

Ond nid oes yma ddim cymmaint o nwydau drwg na ffolineb ag y mynn ef i ni gredu. Y mae'n debyg mai ychydig cyn y pasg, dydd mawrth cyn y pasg medd rhai, y gwnaeth Crist y gwyrth hwn: hynny yw, tua diwedd Mawrth neu ddechreu Ebrill. Fod un math o ffigys yn aeddfed ar yr amser hwn yn Judea, a ymddengys oddiwrth Josephus yr hwn a ddywed fod y ffigysbren yn Gennesareth, rhan o Judea, yn rhoddi ei ffrwyth dros *ddeg mis* o'r flwyddyn. Ac y mae ymron yn sicr oddiwrth yr ymadrodd hwn o eiddo Marc y gellsid disgwyl fod ffigys ar y ffigysbren hon, oherwydd dywed fod *dail* arno; a dywed Pliny ac eraill fod y ffigys yn ymddangos oflaen y dail yn wastod; ac os felly, gan fod dail ar y ffigysbren hon yr oedd yn natturiol i ddisgwyl cael ffigys arni. Ond meddwch y mae y meddwl yna yn croesi Crist yn bendant canys diwed ef, nad oedd amser ffigys? Ond

beth sydd i ddeall wrth yr ymadrodd, yw'r pwngc. Y mae'n sicr fod y cyfryw ymadrodd yn cael ei arfer, am amser *casglu* ffigys; nad oedd hwn ddim wedi dyfod etto; ac felly yr oedd yn natturiol disgwyl ffigys. Ac nid oedd amser casglu ffrwythau aeddfed o un math ddim wedi dyfod ar y pryd y darfu i Grist felldithio'r ffigysbren hon, oblegid nid oedd yn gyfreithlon i wneuthur hyn, nes offrymmu'r blaenffrwyth i'r Arglwydd yn gyntaf. Ond pa bryd yr oedd y blaenffrwyth i gael ei offrymmu? Fe ddywed yr hanes mai ar yr ail ddydd o'r bara croyw oedd; hynny yw, pump neu chwech diwrnod ar ol i'r Iesu felldithio'r ffigysbren. Felly ynteu gan nad oedd dim ffrwythau wedi eu gasglu etto, oblegid fod cyfraith yr Iuddewon yn eu gwarafyn i wneuthur hynny, gallasai yr Iesu yn natturiol, meddaf etto, ddisgwyl cael ffigys ac felly nid oes yma fawr ffolineb i'w ganfod o leiaf. Ac mor lleied a hynny o nwydau drwg, fel y caf ddangos etto.

2. Gofynnir, Pa hawl gyfreithlon oedd gan yr Iesu i gymmeryd y ffrwythau pe buasai ffigys ar y pren? Y mae Woolston yn dywedyd, gan nad oedd gan Iesu le i roi ei ben i lawr, mai *nid* ei eiddo ydoedd hi: ac y mae yn awgrymmu, pe buasai ffigys ar y pren, y buasai'r Iesu y tro hwn yn troi yn lleidr, neu'n *rob-orchard* fel y geilw efe ef.

Y mae'r fath haeriad cellwerus am un na chafwyd twyll yn ei enau, yr Iesu trugarog, y goreu o ddynion, yn ddigon i beri i waed Cristion i saethu trwy ei wythiennau. Beth, yr Iesu yn lleidr, yn rob-orchard, aïe!! Gadewch i ni weled a oedd hawl gan Iesu i wneuthur hyn; ïe, a hawl *gyfreithlon* hefyd. Y mae cyfraith wedi cael ei rhoddi gan Dduw i'r Iuddewon i'r pwrpas hwn, yn Deut. xxiii. 24 25, "Pan ddelych i winllan dy gymmydog, yna bwytta o ranwin dy wala, wrth dy feddwl: ond na ddod yn dy lestr yr un. Pan ddelych i ŷd dy gymmydog, yna y cai dynnu'r tywysenau a'th law; ond ni chai osod crymman yn ŷd dy gymmydog." Yr oedd Doctoriaid yr Iuddewon yn esbonio'r gyfraith fel yn cynnwys pob ffrwythau eraill a ellsid eu bwyttau megis *olwes*, *ffigys*, *dates* &c. Felly ni wnaeth yr Iesu y tro hwn etto ddim rhagor nag oedd y gyfraith yn ganiattau iddo; ac felly nid oedd yn *rob-orchard*, yn sicr. Na, na, ni cherddodd Iesu un cam erioed, ond yn llygad yn llygad â'r gyfraith.

3. Gofynir pa hawl oedd ganddo i felldithio eiddo arall, a pha ddiben allasai fod ganddo.

Gellir atteb hyn yn rhwydd, mai nid yr Iesu wnaeth hyn os *gwyrth* ydyw, ond *Duw trwyddo*; ac yn sicr nis gellir dywedyd nad eiddo *Duw* oedd y ffigysbren hon, yngystal a phob peth arall. Ac am ei ddiben yn melldithio'r ffigysbren, yn lle nwydau drwg, y mae'r daioni mwyaf yma. Yn nammeg y winllan y mae Crist yn dangos ynfydrwydd yr Iuddewon am ei wrthod a'i ladd ef, ac yn dywedyd, oherwydd hynny y byddai iddynt hwy gael eu difethu, a'i gwinllan, ei rhoddi i rai a ddygent ffrwythau. Yr oedd yr Iesu wedi *dywedyd* hyn wrth yr Iuddewon lawer gwaith, yn awr y mae ef yn *dangos* hyn iddynt trwy beri i'r ffigysbren grino o flaen eu llygaid. Yr oedd yr Iuddewon fel y ffigysbren hon heb frwythau, lle gellsid disgwyl oddiwrth eu manteision mawr, y gwnaent ddwyn ffrwythau lawer; yr oedd i'r ffigysbren hon grino oherwydd nad oedd ffrwythau arni, yn dangos trwy hynny, y buasent hwythau fel cenedl i ddarfod, eu gwasanaeth gael ei ddilëu, eu teml ei dinystrio; a hynny cyn y byddai i'r oes honno fyned heibio, a chyn wired hefyd ag i'r ffigysbren hyn i grino. Felly yn lle nattur ddrwg, nattur dda Iesu barodd iddo roddi'r rhybydd sobr hwn i'w genedl fel y byddai iddynt edifarhau; a phwy a ŵyr nad attebodd ei diben hefyd trwy ddwyn llawer i wrando arno a chael eu hachub?

Wele yn awr yr holl brofion oeddwn yn fwriadu eu dwyn ymlaen ar y cyntaf; ond cofier, nid y profion i gyd o lawer o ffordd; yr ydym hefyd wedi crybwyll y gwrthddadleuon ac ymdrechu eu hat-

teb. Barned pob dyn drosto ei hun. Am danaf fy hun gallaf ddywedyd nad oes gennyf yr amheuaeth lleiaf ar y matter. Gan hynny, dyweded Volney na fu'r fath ddyn erioed yn bod a Iesu Grist os mynn ef; tafled Voltaire gymmaint o ddiystyrwch a all ar grefydd, a dyweded nad yw'n gweddu ond i *gooks a chobleriaid*, os yw yn ewyllysio; Dyweded Strauss mai *myth*, chwedl, yw'r cyfan; dyweded Woolston fod ein Harglwydd bendigedig yn lleidr, yn *rob-orchard* os ydyw yn dewis; dyweded Elihu Palmer fod Crist yn fwrddwr mewn egwyddor os hynny sydd oreu ganddo; ie a gwnaed Paine ei *lio a galwed Dduw yn dyst*, nad yw ef yn credu'r grefydd Gristnogol os da ganddo; ond y mae'n rhaid i mi ddywedyd fod yma wirionedd anfeidrol ei bwys i mi; fod yma gyssuron nas gallaf eu gwrthod; gobeithion nas gallaf wneuthur hebddynt; ie, y mae'n rhaid i mi ddywedyd, oddiar *brofion* a ymddangosant i mi yn safadwy, mai PROPHWYD Y GORUCHAF OEDD Y SAER TLAWD O NAZARETH.

Cefn. O. EVANS.

GAIR YN EI BRYD, AT LYWODRAETHWYR Y CYMMANFAOEDD;

NEU

Yspryd y Byd, a'r Yspryd sydd o Dduw, yn cael eu gosod gyferbyn a'u gilydd, a cherbron y Cymry, er rhybudd ac addysg iddynt, yr amser hynod hwn.—1799.

GAN W. WILLIAMS, O ABERTEIFI.

I COR. iv. 14.

"Nid i'ch gwaradwyddo yr ydwyf yn ysgrifenu'r pethau hyn, ond eich rhybuddio yr wyf."

Nyni a dderbyniasom, nid

YSBRYD Y BYD,——————ond——————YR YSBRYD SYDD O DDUW.

(Tadogaeth Anghrist.) *(Yr Athrawiaeth yn ol Duwioldeb.)*

1. A'r hwn ni syrthio, ac ni addolo y ddelw aur a wnaeth ac a gyfododd Nebucodonosor y brenin, yr awr hono a fwrir i ganol ffwrn o dân poeth.—Os byddwch chwi barod i syrthio ac ymgrymu i'r ddelw a wnaethum, DA. *Daniel.*

1. Fel hyn y dywed yr Arglwydd—Myfi yw y cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd.—Nid oes Duw ond myfi: Nid adwaen i yr un. *Isa.* Un Duw sydd. *Paul.* Addoli yr Arglwydd dy Dduw, ac ef yn unig a wasanaethi. *Mat.* Na fydded i't dduwiau eraill ger fy mron i. Na wna i't ddelw gerfiedig, na llun dim——nac ymgryma iddynt ac na wasanaetha hwynt. *Ecsod.* Yspryd yw Duw. *Ioan.* Bydded hyspys itti, frenin, na addolwn dy dduwiau, ac nad ymgrymwn i'th ddelw aur a gyfodaist. *Daniel.*

2. Yr Iuddewon a gydordeiniasent os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef allan o'r synagog.—A hwy a'i bwriasant ef allan. *Ioan* ix. A'r Iuddewon—a godasant erlid yn erbyn Paul a Barnabas, ac a'u bwriasant hwy allan o'u terfynau. *Actau.* Hwy a ffromasant, ac a ymgynghorasant am eu lladd hwynt. *Ib.*

2. Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau: ac y mae'r awr yn dyfod, y tybia pwy bynag a'ch lladdo ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. A'r pethau hyn a wnant i chwi oblegid nad adnabuant y Tâd na myfi. *Ioan.* Byddwch lawen a hyfryd; canys mawr fydd eich gwobr chwi yn y nefoedd. *Mat.* Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw ef allan: a phan ei cafodd efe a ddywedodd wrtho. "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?"—Yntef a ddywedodd, "Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd: Ac efe a'i haddolodd ef." *Ioan.*

3. Nid yw'r Iuddewon yn ymgyfeillach a'r Samariaid—A bu ryfedd ganddynt ei fod ef yn ymddiddan a gwraig: (h. y. o Samaria.) Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn Iuddew, yn gof-

3. A phwy yw fy nghymmydog?—Rhyw Samariad a dosturiodd wrth y gwr o Iuddew a syrthiasai yn mysg lladron—Dos a gwna ditheu yr un modd. Car di Dduw a'th holl

yn diod gennyf fi a myfi yn wraig o Samaria? *Ioan.* Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod genyt gythraul! *Ib.*

galon: Car dy gymmydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll. Os cyferchwch well i'r brodyr yn unig, pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei wneuthur? onid ydyw'r Publicanod yn gwneuthur felly? Byddwch chwi, gan hynny yn berffaith fel y mae eich Tâd yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith. *Mat.*

4. O Feistr, ni a welsom ryw un yn bwrw allan gythreuliaid yn dy enw di, yr hwn nid yw yn ein dilyn ni; ac a waharddasom iddo, am nad yw yn ein dilyn ni. *Marc.*

4. Na waharddwch iddo; canys nid oes neb a wna wrthiau yn fy enw i, ac a all, yn y fan, roi drygair imi. Canys y neb nid yw i'n herbyn o'n tu ni y mae. *Marc.*

5. Ac ni's derbyniasant hwy ef, oblegid fod ei wyneb ef yn tueddu tua Jerusalem. A fyni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nêf a'u difa hwynt, megis y gwnaeth Elias? *Luc.*

5. Ac efe a'u ceryddodd hwynt, ac a ddywedodd, ni wyddoch o ba yspryd yr ydych chwi! Ni ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion ond i'w cadw. *Luc.*—O dad maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur. *Ib.* 23. 54.

6. A hwy a godasant eu llef, ac a ddywedasant, Ymaith a'r cyfryw un oddi ar y ddaear: canys nid cymmwys ei fod ef yn fyw. *Act.* Y mae genym ni gyfraith, ac wrth ein cyfraith ni efe a ddylai farw. *Ioan.*

6. A gawsant brofedigaeth trwy watwar—yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr—y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt—yn crwydro mewn anialwch a mynyddoedd, a thyllau ac ogofeydd y ddaear.—Pan y'n difenwir, yr ydym yn bendithio; pan y'n herlidir, yr ydym yn dyoddef; pan y'n ceblir, yr ydym yn gweddio. *Paul.*

7. "Hon yw'r ffydd gatholig: yr hon ffydd, onis ceidw pob dyn yn gyfan, ac yn ddihalog; diammeu y collir ef yn dragywydd—Ni all efe fod yn gadwedig." *Sant Athanasius.*

7. Hwn yw gair y ffydd—mai os cyffesi a'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi. *Paul.* Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi. *Act.* Ti yw Crist Mab y Duw byw.—Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern ni's gorchfygant hi. *Mat.* "Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw"—ac efe a'i bedyddiodd ef. *Actau.*

8. "Cyttunasom am bwy bynnag na byddo i roddi cyffes eglur o'i feddyliau, am athrawiaethau crefydd, yn rhydd, pan byddo achos, nad ydym yn ewyllysio cadw cymdeithas a'r cyfryw eglwys, neu bersonau neilltuol." *Llythyr Cymmanfa Salem.*

8. Chwiliwch yr ysgrythurau. Na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear; canys un Tâd sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd. *Mat.* Na fyddwch weision dynion—sefwch yn y rhydd-did a'r hon y rhyddhaodd Crist ni; ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed. *Paul.* Na fyddwch feistraid lawer. *Iago.* Nid am ein bod yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi; ond yr ydym yn gydweithwyr i'ch llawenydd. *Paul.* Chwi a wyddoch fod penaethiaid y cenhedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai mawrion yn tra-awdurdodi arnynt hwy: ond na fyddwch chwi felly. *Mat.* a *Luc.* PWY WYT TI, yr hwn wyt yn barnu GWAS UN ARALL? I'w Arglwydd ei hun y mae efe yn sefyll neu yn syrthio. *Paul.* Eich brodyr y rhai a'ch casasant, ac a'ch gyrasant ar encil 'er mwyn fy enw i, a dywedasant, gogonedder yr Arglwydd!

9. Saf ar dy ben dy hun; na nesa attafi; canys sancteiddiach ydwyf na thydi. *Esa.* "Cyttunwyd na byddai ini ddal un gyfrinach grefyddol a neb o wahanol farn mewn athrawiaeth a disgyblaeth, mor belled na byddai

9. Y rhai hyn sydd fŵg yn fy ffroenau. *Esai.* Byddwch barod bob amser i atteb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gyd âg aeddfwynder ac ofn. *Pedr.* Yr wyf yn deall mewn gwirionedd

gandynt un hawl i ofyn cwestiynau ini, na ninau iddynt hwythau, mewn cymdeithas grefyddol." *Llythyr Cymmanfa Bethel. neu Drewyddel.*

nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder sydd gymmeradwy ganddo ef. *Act.* Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fâb, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.—Y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw, a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef. *Ioan.* Yr ydwyf yn hyspysu i chwi, frodyr, yr Efengyl a bregethais i chwi, yr hon hefyd a dderbyniasoch, ac yn yr hon yr ydych yn sefyll: trwy yr hon y'ch cedwir hefyd, os ydych yn dal yn eich cof a pha ymadrodd yr efengylais i chwi, oddieithr darfod i chwi gredu yn ofer. Canys mi a draddodais i chwi ar y cyntaf, yr hyn hefyd a dderbyniais, farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr ysgrythurau; a'i gladdu a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ol yr ysgrythurau—Felly yr ydym yn pregethu, ac felly credasoch chwi. *Paul.*

10. Y mae yn peri i bawb, fychain a mawrion, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion, dderbyn NÔD ar eu llaw ddeheu, neu ar eu talcenau.—Ac na allai neb na phrynu na gwerthu, ond yr hwn a fyddai gantho NÔD, neu enw'r bwystfil, neu rifedi ei enw ef.—A chael o'r sawl nid addolent ddelw'r bwystfil eu lladd. *Dat.*

10. Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd fel y byddent gadwedig: ac am hynny y denfyn Duw iddynt amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd.—O herwydd pa ham, deuwch allan o'u canol hwy, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd; ac na chyffyrddwch a dim aflan; ac mi a'ch derbyniaf chwi. *Paul.* Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, fel na byddoch gyd-gyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phläau hi. *Dat.*

OL-YSGRIFEN.

"NID yw eich sancteiddrwydd, ysgatfydd, (ebe gwr cyfrifol o *Brotestant* wrth y Pab), ddim yn adnabyddus, pwy mor agosed, weithian, y mae ein heglwysi ni, y Protestaniaid, wedi dyfod at y breintiau a'r rhogoriaethau hyny yr ydych chwi yn ymffrostio ynddynt, fel rhai priodol i chwi yn unig. Ni ddichon y rhai mwyaf synhwyrol ganfod un gwahaniaeth arall rhyngom, o ran egwyddor sylfaenol pob athrawiaeth, llywodraeth, dyscyblaeth, ac addoliad, ond yn unig hyn. *Na's gallwch* chwi camsynied, yn unrhyw beth a fyddo i chwi ei benderfynu, ac *nid ydym* ninau byth yn gamsyniol. Hyny yw, mewn geiriau eraill, Eich bod chwi *yn anffaeledig*, a ninau bob amser *ar yr iawn.*—Ni's gallwn ni lai na meddwl fod yr oruchafiaeth, yn hyn yma, yn fawr o'n tu ni, oblegid ein bod ni yn meddiannu holl wasanaeth a buddioldeb *Anffaeledigrwydd* heb yr erchylldod o orfod honni hawl iddo, ac heb y gorchwyl gorchestol o ddadleu dros bwngc ag sydd mor hollol elynol i reswm a dyalldwriaeth dynol ryw." Nid camgyhuddiad yw hyn: sen ydyw, a sen dra gwirioneddol, ffel y mae gwaetha'r môdd. Y mae Eglwys Rhufain yn gwarafun y Beibl i'r bobl. Y mae rhai Protestaniaid yn gadael iddynt edrych yn y llyfr, ond yn caethiwo'r ystyr. Pa beth yw'r gwahaniaeth? Chwilio, neu beidio chwilio, darllen, neu beidio darllen—y mae'r *ystyr* wedi ei rwymo yn gaeth; ac ar berygl eich enw da, a'ch cymmeriad, y byddai i chwi ymwahanu.

(Rhoddir y "GAIR YN EI BRYD" uchod "air yng ngair" yn ôl yr argraffiad cyntaf, a dderbyniasom oddiwrth Mr. Jones o Aberdâr. ("Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-Prior.—1799.") Gobeithiwn y bydd i Mr. J. neu ryw un arall, ein anrhegu âg ychydig o hanes "Cymmanfa Salem," a'r torriad allan ymhlith y Bedyddwyr, dan Mr. Williams, Ben. Phillips, a W. Richards o Lynn. GOL.)

DUW A'I DDIBENION YN OL EI AIR.

Syr,—Mae y gwrthddadl nesaf a gaf sylwi arno yn sylfaenedig ar Ddammeg y gwr goludog a Lazarus, Luc xvi. 25-28, "Ac Abraham a ddywedodd 'Ha fab, cofia i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y dyddenir ef ac y poenir dithau. Ac heb law hyn ôll rhyngom ni a chwithau y sicrhawyd gagendor mawr: fel na allo y rhai a fynnent dramwy oddi yma attoch chwi, na rhai oddi yna dramwy attom ni.' Ac efe a ddywedodd 'Yr wyf yn attolwg i ti gan hynny, O dad, ddanfon o honot ef i dy fy nhad: canys y mae i mi bump o frodyr; fel y tystiolaetho iddynt hwy, rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn." Haerir fod ein Harglwydd Iesu Grist yn dywedyd yn bendant yma nad yw yn bossibl i ddyn a fu farw yn un drwg gael byth fyned i'r Nef—nad oes wella iddo—*na all Duw ei buro o'i holl anwireddau*, a'i wneuthur i ddwyn ei ddelw ef ei hun, am fod y gagendor mawr yn rhwystro, ac i rwystro cyhyd ac y parhao Duw ei hun i ymfodoli. Gellid gofyn pwy wnaeth y gagendor mawr, a'r ddwy wlad o bob tu? ond yn lle hynny, sylwaf mai dammeg sydd dan sylw, a bod y cyffredinolrwydd yn addef, mai dim ond un peth sydd yn cael ei ddysgu mewn dammeg. Dewr, a byrbwyll, yw y gwr, a haero fod yr hanes i gael ei ddeall yn llythyrennol. Mae gwlad y gwynfyd yn cael ei darlunio fel yn sefyll ar naill hanner i ryw geudod dychrynllyd; a thrigfa y gwae ar yr hanner arall—cawn fod tafod gan y gwr goludog, a bys gan Lazarus; am hynny sicr gennyf, mai dammeg yw, ac mai ei diben yw dysgcu nad yw bossibl i ddyn, tra yn ei ddrygioni i gael dedwyddwch—mai poen sydd i ddilyn pechod—ac mai rhinwedd yn unig all ddwyn gwynfyd. Mewn geiriau ereill, fod yn *rhaid* i'r drygionus adael ei ffordd; a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychwelyd at yr Arglwydd, cyn y gallo gael dedwyddwch. O'r hyn leiaf, rhaid i bawb addef nad oes yma sill yn y byd, yn awgrymmu fod y ddwy wlad i fod yn ddiderfyn mewn gelyniaeth a'u gilydd---na all Brenhin y goleuni enill trigolion teurnas y tywyllwch, i fod yn ufuddion iddo ef, ---yn syml eu llygaid, a'u holl gyrph yn oleu. Am hynny, nid yw yn penderfynu dim am ddiben, a pharhad y gosp tu hwnt i angeu. Dymunaf ar yr hwn sydd yn barod i ddywedyd, fod'ychwaneg i'w ddeall, alw i gof, pa fath ddyn oedd y gwr goludog, pan yr ydoedd ar y ddaear, yn cael ei wisgco a phorphor, a lliain main; ac yn byw yn helaethwych beunydd: a pha gyfnewidiad sydd ganfodadwy ynddo, pan yn boenedig yn y "fflam hon." Pa un a ydyw yn dangos ei hun yn fwy fwy gwrthnysig, a rhyfelgar yn erbyn y Nef; fel mae y credinwyr yn y poeneu diderfyn yn haeru; neu ynte o'r tu arall, wedi dysgcu gwella, drwy gael ei "guro a llawer ffonnod." Er ei holl lewndid, ni wnaeth un drugaredd a'r afiach cornwydlyd oedd yn eistedd wrth ei borth ef; ond goddefodd i'r cwn i'w flino, a'i ddolurio heb un gofal am danynt. Hunanoldeb ei gyd, oedd yn ei feddiannu---yr ydoedd yn hollol ymddifad o deimlad y Samaritan a gafodd y gwr oedd wedi syrthio i blith y lladron yn gorwedd yn archolledig yn ochor y ffordd---a gellid dychymmygu mai offeiriad, neu Lefiad ydoedd---yn berffaith ddiofal am ddioddefaint ei gyd-ddyn. Yn uffern mae wedi cyfnewid yn hynod i'w feddwl. Mae yno yn ceisio gan Abraham anfon un oddiwrth y meirw at ei frodyr, i'w rhybuddio rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus, yr ydoedd efe ynddo---yn gofyn am wrthiau i gadw ei frodyr rhag dilyn ei ôl ef! Pe cawsai yr ail gynnig buasai yn sicr o dosturio wrth y cardottyn cornwydlyd---yn sicr o'i ddwyn i'w dy, a thalu y meddig

am ei welläd. Cof o'i galon-galedwch oedd y tân oedd yn ennynnu ar ei dafod. Yr ydoedd y mae yn eglur wedi dechreu gadel y drwg, a dysgcu gwneuthur daioni. Mae yn diwygio yn gyflym o dan y flangell---mae y tân yn ei buro, ac yn amser Duw, amlwg yw, y daw allan fel aur wedi ei goethi. Mor belled ag y mae y ddammeg hon yn dal perthynas a diben y gosp yn y byd a ddaw, y mae yn benderfynol yn dangos mai diwygiad y ceryddedig yw y bwriad: ac nid dial ar berchen ewyllys rydd, sydd wedi trechu Hollalluowgrwydd Duw. Mae yma drefn doethineb i'w gweled, a honno *ei gyd yn dda.* Gadawaf ef yn awr yn ei "bair cystudd" yr hwn a'i "pura fel arian" ac ni bydd ynddo na thywyllwch na camsynied byth mwyach.

Mae gwrthddadl arall yn galw sylw, er yn ymddangos i mi a'i hôll rym yn ymddibynnu ar gymmeriad uchel y rhai a'i gwnant; sef gweinidogion yr Independiaid yn gynnulledig mewn cyfarfod yn—er ys ychydig o flynyddau yn ol. Ar y ddadl fawr hon cytunwyd yno, Fod dibenion Duw oll yn dda, ac i bara felly tu hwnt i ardaloedd angeu—mai athrawiaeth ogoneddus a gwirioneddol ydyw ADFERIAD; *ond na ddylid ei dysgcu yn yr oes hon, am fod y byd yn rhy ieuangc etto.* Beth yw y rheswm yna dros gelu y gwir, amgen na dywedyd fod syniadau gau yn well na gwirioneddau Duw? Gyda yr un cymmwysder gallesid dywedyd wrth Elias fod y byd yn rhy ieuangc i glywed mai "Un Duw sydd," ac mai gwell eu gadel i ddilyn prophwydi Baal. Rhyfedd, ar ryfedd yw, fod neb yn barnu fod yr anwiredd yn fwy effeithiol i ddiwygio pechaduriaid na geiriau y gwirionedd!! Fod Brenhin y tywyllwch yn fwy rhagorol Iachawdwr na Iesu o Nazareth!!! Mae arferiad gan *rieni ffol* i ddywedyd, fod yr hen ddyn a'r cwd yn dyfod i dorri ymaith bennau plant bach; yn lle arfer gwialen cerydd i ddiwygio beiau eu plant. Mae atgasrwydd y fath ffieiddbeth yn peri i'm temerau wresogi, a'm pin yn barod i fyned yn rhy bell; am hynny gadawaf iddynt. "*Ephraim a ymgysylltodd ag eilunod; Gad iddo.*"

Mae gwrthddadl arall, neu yn hytrach olygiadau gwahanol nag eiddo Smith, nag Edwards, yn câel eu monwesu gan lawer o oreuon daear: sef, Fod amser i ddyfod pan y bydd i'r pechaduriaid a fyddant yn y "tân tragywyddol, gyda Diafol a'i angylion" i gael eu *difodi yn dragywyddol* allan o greadigaeth Duw, ac na fydd dynion i'w cael, ond y gwynfydedigion y nef yn ol llaw. Ystyriant fod y geiriau canlynol, yng nghyd a'r cyffelyb, yn eglur ddysgcu hynny. 2 Thes. I. 9, "Y rhai a dyoddefant yn gospedigaeth ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef." Dat. xx. 14, "A marwolaeth, ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dan. Hon yw yr ail farwolaeth." Mae golygiadau o'r fath yna ryw lawer yn llai ellyllaidd, a drwg, na'r rhai ydynt yn gosod allan Dad pob daioni yn anfeidrol ddrwg, ac yn ymwynfydu ym mhoenau diderfyn ei greaduriaid. Wedi *dial* ei wala, mae medd yr athrawiaeth hon yn eu difodi yn dragywyddol fel na wrthryfelont yn ei erbyn mwy. A lleîaru yn ddynol fe *bass* ei bang drwg wrth ei elynion, a daw amser, pan na byddo ei gyfeillion goreu yn cael eu blino a'r olwg o ddialedd diddarfod. Nid oes yma fawr trefn i'w chanfod; ac nid wyf yn gweled pa ddiben yn amgen na dial sydd yn adgyfodiad yr angnghyfiawn: o leiaf mae diffyg *gallu*, neu *ewyllys*, yn y Duw hwn i berffeithio gwaith ei law, a'u gwneuthur yn dragywyddol ddedwydd. Nis gellir ar y golygiadau hyn ganu "Duw a digon"---ammhosibl gyda hwynt i garu yr Arglwydd ein Duw a'r holl galon. Maent yn rhy ddiffygiol.

Cewch gennyf yn fy nesaf farn Silvanus Cobb, a'i gyfeillion, gan fy mod yn credu eu bod yn newydd i ddarllenwyr yr *Ymofynydd* yn weinidogion, a'u gwrandawyr, oddeithr un neu ddau.

Fel hyn ymdrechais sylwi ar bob gwrthddadl o bwys, gyda pa lwyddiant barned y darllenydd. Os cafodd rhyw

un ei foddloni, da y modd. Os b'um lwyddiannus, mae yn amlwg fod llyfr y greadigaeth, llyfr rhagluniaeth, a llyfr y dadguddiad Dwyfol, yn cyd-osod allan fawredd, doethineb a daioni Duw. Efe a greodd---mae llyfr natur yn profi ei ddiben daionus. Gweled y ddarllenydd yr hyn sydd ar y pwngc dan yr enw "Tystiolaeth llyfr natur am Dduw" yn yr *Ymofynydd* am fis Rhagfyr 1847, ac ym mlaen drwy fisoedd y flwyddyn ganlynol hyd Fehefin. Amcanwyd profi yn amlwg yno fod pob poen, ag y gwyddys ei ddiben, *yn tueddu i lesâu dyn*, ac mai yr unig gasgliad têg, ellir dynnu, lle y byddom yn methu canfod y diben, yw, mai yr un yw yr amcan---mai yma y mae lle i ffydd i weithredu, a dwyn Iechydwriaeth i'r Cristion. Gwelsom hefyd pâham y mae drwg o dan lywodraeth bod anfeidrol dda; a pha beth yw yr achos fod dyn yn pechu, sef ei dywyllwch.

Yn y gair dwyfol gwelwyd, mai bod Hollalluog yw Duw, anfeidrol ei gariad, a digamsyniol ddoeth---yn feddiannol ar allu ac ewyllys i wneuthur y cyfan mewn perffeithrwydd, i buro pob drygionus nes y byddo yn dywedyd, "Mi a godaf, ac a âf at fy *nhâd* ac a ddywedaf wrtho, fy nhad pechais yn erbyn y Nef, ac o'th flaen dithau &c." Nid oes dim a'i lluddia---*ei gyngor a saif a'i holl ewyllys a wna.* Ie hyd y nod pe bai y gwag ddychymmygion, a roddant angel y goleuni yn frenhin y tywyllwch, mae cariad anfeidrol, a Hollalluowgrwydd Duw yn ddigon i'r gwaith o'i buro o'i holl falchder, a'i wneuthur yn ddelw y Duw, sydd yn ei gadw a'i gynnal yn y lle y mae.

Gan mai y golygiadau hyn yn unig sydd deilwng o Dduw doeth, a Hollalluog, *rhaid, mai hwy yw y rhai cywir.* Hwy yn unig a alluogant ddyn yn ddiryfyg i glodfori Duw o'r galon: oblegid gan fod Duw yn dda i bawb, rhaid nad yw yntau wedi ei anghofio---gŵyr mai goreuon Duw yw y cyfan y mae yn gael o'i law ---y gosp yn gystal a'r wobrwy. Yn lle rhyfygu i geisio gan Dduw i attal y cynnar, ar diweddar wlaw, y mae yr un sydd yn synied gyda mi ar drefn y nefoedd yn credu, nad oes cafod ym disgyn ar y ddaear, ond yr hyn mae anfeidrol ddoethineb yn weled yn addas---nad oes ddiferyn erioed wedi cael ei daflu ar y ddaear, ond yr hyn a drefnodd cariad---a phe bai ond i un niwlen leiaf i ddisgyn lle na ordeiniodd Duw er pob tragywyddoldeb, yr elai y greadigaeth yn bendramwnwgl a holl natur i ddiddimdra o eisiau trefn, a Threfnwr. Ni ddichon yr hwn sydd yn credu fod gan Dduw drefn, lai na gofidio wrth weled fod dynion yn rhyfygu i geisio gan Dduw attal na *phla,* na *dinystr,* am y gŵyr nas gellir temptio Duw a drygau i dorri ar y cynllun a osododd cyn creu daear na dyn---yn ei hawddfyd, yn gystal a'i adfyd, mae yn gweled llaw anfeidrol gariad. Nid yn unig dywed gyda Job, "A dderbyniwn ni y da, ac ni dderbyniwn y drwg, o law yr Arglwydd;" ond ychwanega o'r galon "Yr Arglwydd sydd yn teurnasu, gorfoledded y ddaear, llawenyched ynysoedd lawer." Mae hwn yn awr yn gallu ymborthi ar fara y bywyd, ac'yn fwy na chongcwerwr ar holl brofedigaethau y bywyd hwn. Nid oes dim wrth ei fodd ond trefn ei Dduw. Gellid llefaru ar lywodraeth Trefnwr y cyfan am hir amser. Dyma fydd gwaith gwynfydedigion Duw am bob tragywyddoldeb. Nis gallant dewi.

Ydwyf, &c.,

J. Jones.

O. Ys. Gadewch i mi ddiolch yn garedig i Mr. Evans o Lambedr, am ei sylwadau; a dywedyd fod yn dda gennyf, fod un i'w gael ar bwys Coleg Dewi Sant, a feiddia antyrio i'r ddadl *bennaf* o bob dadl pan y mae Offeiriaid ac Archddeoniaid yn methu magu calon i'r gwaith. Caiff glywed oddiwrthyf heb fod yn faith, os byw ac iach y fyddaf. Yn y cyfamser gobeithiaf y bydd iddo ddarllen yn bwyllog yr hyn a ysgrifennais ar "Dystiolaeth llyfr natur am Dduw."

Y RHYFEL RHWNG YR HUNGARIAID A'R AWSTRIAID.

Syr,

Sylwa yr ysgrifenwr rhagorol hwnw, Thomas Paine, nid wyf yn awr yn cofio ym mh'le, am gyfreithiau dynol, "*Laws are necessary evils*;" hynny yw, mai drwg ynddynt eu hunain yw cyfreithiau gwladol, ond drwg ydyw nas gall y byd wneyd hebddo: oni fyddai yn briodol dyweyd yr un peth am ryfel hefyd, *War is a necessary evil*? Nis gallaf lai na chydmaru rhyfel, ar ryw ystyr, i'r cynhyrfiadau nerthol a dylanwadol hynny yn natur a elwir *hurricanes*; mae'r rhai hyn, pan dygwyddont, yn achosi dinystr aruthr ar fywydau a meddianau, er hynny maent yn puro'r awyr, ac yn ei gwneyd yn fwy addas at gynhaliaeth bywyd yn gyffredinol. Felly hefyd y gwna rhyfel; mae'n alarus meddwl am y difrod a wna; ond er hynny, mae'n 'scubo ymaith o'r awyr boliticaidd lawer o'r ammhurdeb fyddo wedi casglu ynddi o bryd i'w gilydd.

Llawer iawn, Syr, yw'r ysgrifenu, a'r areithio, sydd yn awr er ys blynyddau yn y wlad hon ar ddrwg rhyfel—y difrod a wna ar fywydau—y cyfoeth a ddinystria—y modd yr attalia gynnydd gwareidd-dra—yr annogaeth a rydd i anfoesoldeb, creulonder, a phob math o deimladau drwg. Mae'r effeithiau hyn yn ddiau yn canlyn rhyfeloedd mor naturiol ag y rhêd y dwfr i waered: ac y maent y fath nas gall un gwir Ghristion lai na'u anghymeradwyo, a defnyddio pob mesurau a allo i osod terfyn arnynt. Ond, Syr, yr wyf yn methu cydsynied yn hollol â'r rhai hynny sydd yn myned i eithafion ar y pen hwn, gan gondemnio rhyfel o bob math heb un eithriad; oblegid pe cymeradwyai y wlad hon, neu ryw wlad arall yn Europe, yr egwyddor, a phe dechreuai ymddwyn yn unol a hi, gan ddiddymu ei llynges a'i byddinoedd, a throi ei chleddyfau a'i gwaywffyn yn bladuriau ac yn sychau erydr, ni fyddai eisiau nemawr o'r dawn prophwydoliaethol i rag-ddyweyd y byddai ei thynged, yn ol fel mae dull y byd yn bresenol, yn gyffelyb i Poland, sef bod yn ysglyfaeth i eryrod, arthod, a bleiddiaid.

Os gellir heddychu rhwng cenhedloedd a'u gilydd trwy appêl at y deall a'r teimladau moesol---os gellir, meddaf, penderfyuu eu dadleuon trwy foddion o'r fath hyn, a darbwyllo gormeswyr swrth, hunan-foddog, ac anwybodus, i gredu fod traws-arglwyddiaeth a thrachwant yn milwrio yn erbyn gwir lês y byd, gwneler felly gyda phob brys: oblegid byddai hynny yn fwy teilwng o ddynolryw fel bodau sydd berchen ar synwyr a deall. Nid appêl at gyfiawnder achos y naill blaid na'r llall, yw y dull o benderfynu ymrysonau a hawliau trwy gyfrwng y cleddyf, y mwsced, a'r cannon; ond at rym corff ac arfau, a medrusrwydd i ladd dynion; onite y gwr goreu gyda ei ddwrn ym mhob man fyddai y gwr mwyaf cyfiawn a doeth. Ond pa fesurau ddylid gymeryd pan metho moddion moesol wneyd y tro? A raid gan hynny caniatau i ormeswyr amddifadu cenhedloedd o'u rhyddid, a sathru breiniau dynolryw dan eu traed? Mi debygwn fod natur, rheswm, ac ysgrythur, yn atteb "na raid;" ond mai peth cyfiawn yw defnyddio yr un fath foddion i gadw gormeswyr o fewn terfynau rhesymoldeb, ac maent hwy yn ddefnyddio at gyrhaeddyd eu hamcanion hunanol.

Dyma'r amgylchiad, Syr, mae'r Hungariaid ynddo yn bresenol. Nid peth disymmwth yw'r rhyfel hwn; y mae'r achosion o hono wedi dechreu bodoli er ys rhagor na thri chant o flynyddau, sef yn agos oddiar pryd mae Hungari mewn undeb ac Awstria. Dealled y darllenydd mai nid talaeth o ymerodraeth Awstria ydyw Hungari. Nid buddugoliaeth yw sylfaen yr Undeb rhyngddi ag Awstria, ond ammod, yr hwn a wnaethpwyd gyntaf rhwng y ddwy genedl yn 1526,

pryd y cwympodd Jagellon, yr olaf o deulu brenhinol yr Hungariaid, ym mrwydr Mohacz, yr hon a ymladdwyd rhyngddynt a'r Twrciaid.

Un o brif egwyddorion yr Undeb yw cydnabyddiaeth o freiniau anymddibynol yr Hungariaid gan deulu brenhinol Awstria, a'i gydsyniad i gadw y breiniau hynny yn ddianaf, ac na fydd i'r undeb fod yn achos i ymyru a hwynt mewn un rhyw ystyr mwy na'u gilydd. Ym mrwydr Mohacz gwnaethpwyd lladdfa echryslawn ar bendefigion Hungari: pryd hyn yr oedd pwer y Twrciaid cymmaint dan eu hymerawdwr Soliman fel yr oedd yn lles i'r Hungariaid ac i'r Awstriaid i uno a'u gilydd er mwyn bod yn ddigon cryf i'w gwrthwynebu. Pan y dewiswyd Ferdinand o Awstria, brawd Charles V, yn frenhin Hungari, perodd yr Hungariaid iddo gymeryd llw y gwnai gadw eu breiniau hwy fel cenedl annibynol yn ddianaf. O amser Ferdinand hyd yr ymerawdwr ienangc presenol, y mae pedwar ar ddeg o ymerawdwyr Awstria wedi bod yn frenhinoedd Hungari, a phob un o honynt ar amser ei goroniad wedi cymeryd yr un llw. Yn 1790 gwnaeth yr ymerawdwr Leopold y cyfammod canlynol â'r Hungariaid; sef "Fod Hungari yn wlad rydd ac annibynol yn ei holl gyfundraeth ddeddfwneuthurawl a llywodraethawl; nad ydyw hi ddim yn ddarostyngedig i neb pwer arall, ond ei bod i ymddibyna ar ei chyfansoddiad neu ei chonstitution ei hun, ac i gael ei llywodraethu gan frenhinoedd coronedig yn ol cyfreithiau a defodau ei chenedl."

Ym mhlith iawnderau a gynnwysir yn y cyfammod hwn y mae cyd-wysiad tair blynyddol y Diet, neu y senedd; cauadigaeth estroniaid---hyd yn nod yr Awstriaid---allan o bob swyddi dan y llywodraeth; a rhyddhâd oddiwrth bob math o gyfreithiau a threthi na fyddo'r Diet wedi awdurdodi. Nis gall dim fod yn bwysiccach i'r Hungariaid na'r tair egwyddor hyn: y maent mor bwysfawr iddynt hwy ac ydyw'r *Habeas Corpus Act* i drigolion Brydain: nis gellir troseddu un o honynt heb gaethiwo ygenedl, a mabwysiadu mesurau a ddichon osod bywyd a meddianau yr Hungariaid mewn perygl. Yn fyr, hwy yw ddiogelfa eu rhyddid.

Yn nesaf, er mwyn dangos cyfiawnder ymddygiad yr Hungariaid yn gwrthryfela yn erbyn eu gormeswyr yr Awstriaid, gadewch i ni roddi cip olwg ar ymddygiad twyllodrus yr ymerawdwyr a'u pencynghoriaid mewn perthynas a'r ammodau uchod. Y mae yn hysbys i'r sawl sydd wedi talu sylw i hanes Europe yn yr hanner can mlynedd ddiweddaf i rai pennau coronog a thywysogion addaw caniatau i'w deiliaid lawer o'r hawliau gwladol a attalid hyd hynny oddiwrthynt, os y gwnaent un ymegniad ychwanegol i orchfygu Bonaparte a'r Ffrancod. Y canlyniad fu i ymegniad mor nerthol gael ei wneyd nes baeddu Bonaparte ar faes Waterloo a'i alltudio i St. Helena. Ond a ddarfu i frenhinoedd y Cyngrair gyflawnu eu haddewid i'r bobl? Na ddo, ddim iot. Cafodd yr Hungariaid, fel eraill, eu siomi. Nid oedd nemawr ammheuaeth ganddynt, wedi i'r heddwch gymeryd lle, na fuasai cyfammod Leopold yn cael ei ddwyn i weithrediad, oblegid hyd yma yr oedd yr ymerawdwyr, er gwaethaf eu llw, wedi ymddwyn mor dwyllodrus a pheidio cyflawni un llythyren o hono. Ond dylasai deiliaid brenhinoedd y Cyngrair gofio mai arfer tywysogion mewn adfyd, fel pendefigion ein gwlad ni yn amser etholiad i'r Senedd, yw dywedyd yn deg, a gwneyd llawer o addewidion; ond mewn hawddfyd, eu bod yn anghofio. Mor belled y bu Awstria o gyflawni y cyfammod â'r Hungariaid, fel y penderfynodd, fel aelod o'r peth a elwid y Cyngrair Sanctaidd, i osod Hungari yn yr un cyflwr gormesawl a thalaethau yr ymerodraeth. Cymerai yr ymerawdwr fontais o bob cyfleustra i lanw swyddi yn Hungari â'i gyfeillion ei hun yn groes i'r ammod, fel y byddent yn offeryn yn ei law i gyflawni ei fwriadau gormesol. Gosodai swyddogion Awstraidd ar fyddinoedd Hungari. Gom-

eddai ryddid yr argraff-wasc. Gosodai lyffetheiriau newyddion bob blwyddyn ar fasnach, y fath fel na allai yr Hungariaid na gwerthu eu nwyfau eu hunain, na phrynu o wledydd tramor. Lleihaäi werth yr arian bathol trwy gymmysgu mwy o *alloy* neu fettel isel-bris na fyddai gyfreithlon. Yn lle galw y Diet ynghyd bob tair blynedd yn ol y Charter, bu Hungari heb un Diet am ddeuddeg mlynedd. Yn fyr, nid oes un ammod yn llw Leopold yn 1790, na chafodd naill a'i dori yn wirfoddol, neu ei ochelyd trwy gyfrwys-dra. Ai nid cyfiawn, gan hynny, yw rhyfel yr Hungariaid? Pe gallwn, yn y llythyr hwn, adrodd holl ymddygiad gormesol Awstria, byddai yn ddigon i beri syndod ar bob perchen synwyr i feddwl pa fodd y gallodd yr Hungariaid fyw cyhyd tan y gorthrymder. Nid oes un engraifft mwy hynod na hwn yn holl hanesiaeth i ddangos pa mor hir-ymarhoüs yw cenedl dan ormes, a pha mor anhawdd ganddi wrthryfela yn erbyn yr awdurdodau.

Yn 1822 ac 1823 amcanodd yr ymerawdwr a'i ddirgel-gyngor osod trethi newyddion trwy drais ar yr Hungariaid, a gorchymyn iddynt ddanfon milwyr newydd i'r fyddin, yr hyn a berodd i'r Diet yn 1825 ddangos trwy bleidlais yr arwyddion cyntaf o anfoddlonrwydd, a phenderfyniad i wrthsefyll ychwaneg o drawsarglwyddiaeth. Dywedodd ei bod wedi dioddef gormes cyngor Vienna cyhyd ag y gallasai, ac weithian bod yn rhaid gweled a oedd yn rhwym o ddioddef ychwaneg. Nid oes neb gorthrymwr nad ydyw i raddau mwy neu lai yn *goward*. Perodd attebiad penderfynol y Diet gymmaint o ddychryn ar Francis I. a'i gynghoriaid, nes y galwasant yn ol eu gorchymyn, a rhoddi esgus dros eu hymddygiad: addawsant hefyd yn eu braw gadw o hyny allan yn fwy agos at gonstitution Hungari, trwy alw ynghyd y Diet bob tair blynedd, a pheidio ethol milwyr heb ei chaniatad. Pryd hyny gwirionodd Awstria beth, ac ymddygodd yn llai haerllyg, mae'n wir; ond dangosodd mai ofn oedd yr unig achos gafodd i dynu ei chyrnau yn ol, oblegid yn ddirgel ymddygai yn fwy dichellgar: *bribai* etholwyr; ennynai ragfarnau gelyniaethol amrywiol dylwythau y wlad, a gwnai bob ymdrech i ychwanegu nifer ei chefnogwyr yn ystafell bwrdd y Magnates. Ond er gwaethaf ei gorchwylion dichellgar, nid oedd ei llwyddiant yn cyfatteb i'w dyfalwch; oblegid gwrthwynebid ei hamcanion gan y corphoraethau Hungaraidd, etholiadau y *Siroedd*, a phendefigion y wlad. Y gwrthwynebiad cysson hwn i ormes Awstria a roddes fodoliaeth yn 1827 i'r "*Hungarian party*," y rhai ydynt wedi gwrthsefyll yn wrol dros ugain mlynedd ymosodiadau bradwrus y gorthrymwyr, ac yn y cyfamser hefyd wedi meithrin i wasanaeth y llywodraeth rai o'i haelodau mwyaf galluog.

Dyma oedd sefyllfa pethau yn Hungari pan torodd allan y chwildröad diweddaf yn Ffrainc. Yn fuan wedi cynnwrf y Ffrancod yn 1848, dechreuodd Talaethau Awstria yng Ngogledd yr Eidal fod yn aflonydd, a dangos arwyddion o anesmwythder dan iau gorthrymder. Cyn danfon Radetsky i ostegu y cynnwrf hwnw yn yr Eidal, meddyliwyd mai doethach fyddai yn gyntaf wneyd cyfeillion o'r Hungariaid trwy ganiatau iddynt eu cais. Ond pa fodd bynnag, cyn gynted ag y gorchfygwyd yr Eidaliaid, meddyliodd yr ymerawdwr a'i gynghoriaid, gan fod y perygl yn y parthau hyny o'r ymerodraeth trosodd, y gallasent alw yn ol y mesurau a ganiatasant, tan yr esgus nad oeddynt yn eu cymeradwyo, ac nas caniatasent mo honynt oni buasai iddynt gael eu hannog i wneuthur felly bron trwy drais. Yn y cyfamser gwnaethent barotoiadau dirgelaidd at orddiwes yr Hungariaid yn ddisymmwth, trwy lanw eu gwlad â milwyr, a chymeryd meddiant o'u prif drefydd. Pan deallodd y Vienniaid yr amcan oedd gan y llywodraeth yn *traino* milwyr, anfoddlonasant mor aruthr fel y parasant wrthryfel yn y ddinas. Nis gall dim fod yn fwy canmoladwy nag ymddygiad y Vi-

enniaid ar yr achlysur; llwyddasant i rwystro amcanion bradwrus y llywodraeth, ac i roddi rhybydd i'r Hungariaid i wylied. O'r diwedd daeth pendefigion Hungari i'r penderfyniad, gan fod pob moddion heddychol wedi methu, nad oedd ganddynt weithian ddim i wneuthur ond appelio at rym arfau.

Dyma, Syr, i ddarllenwyr yr *Ymofynydd* olwg fyr ar brif achosion y rhyfel hwn. Pe buasai gan yr Ymerawdwr ond dyn call i'w gynghori, ni fuasai yr Hungariaid yn gwrthryfela; oblegid nid ymofyn cyfnewid teulu Hapsburg-Lorraine oeddynt, ond ymofyn dyn onest yn frenhin arnynt a fedrai gadw at ei addewid. Nis gall neb sydd yn dymuno gweled rhyddid gwladwriaethol a chrefyddol yn ffynu, lai na gwylied, gada llawer o bryder, effeithiau y rhyfel hwn sydd yn awr wrth bob tebygolrwydd trosodd. Nid rhyfel rhwng dwy genedl ynghylch dernyn o wlad, neu'r cyffelyb, ydoedd; ond rhyfel yn cynnwys egwyddor sydd yn dal perthynas a lles cyffredinol y byd---rhyfel i benderfynu a gaiff un genedl orthrymu y llall---yr fyr, rhyfel ydyw rhwng gormes a rhyddid. Pa un ai gyda golwg ar ryddid gwladwriaethol a chrefyddol, neu gyda golwg ar fasnach yn gyffredinol, bydd canlyniadau rhyfel yr Hungariaid o'r pwys mwyaf i'r byd. Gellaf anturio rhagddywedyd, heb ofni camsynied, y rhydd y rhyfel hwn ergyd mor ddolurus i draws-arglwyddi a gormeswyr, ac a roddes gwaith y Ffrancod yn ddiweddar yn Rhufain, i'r Pab a Phabyddiaeth.* Pan dechreuodd yr Hungariaid barotoi i ryfel, barn gyffredin llawer o *boliticians* doeth yn y wlad hon oedd, mai ofer fuasai eu gwaith; dywedent y byddai lluoedd Awstria tan lywyddiaeth Windisgrätz a Jellachich, yn anorchfygol. Ond nid felly y bu; curodd Bem, Georgey, a Dembinski, hwynt mewn amrywiol frwydrau, ac oni fuasai i Ymerawdwr Rwssia ddanfon lluoedd i'w cynnorthwyo, nid oes un ammheuaeth yn awr na fuasai'r Hungariaid wedi ennill eu hamcan. Gocheled brenhinoedd osod iau rhy drwm ar warrau eu deiliaid, rhag ofn y collant eu coronau.

Os ydyw Awstria wedi dygwydd cael y fuddugoliaeth y tro hwn, mae ei gwaith yn ennill yn gymaint o golled iddi a phe buasai yn colli. Gwna cynnorthwyaeth Rwssia annhraethol mwy o niwed iddi na phe buasai yn heddychu a'r Hungariaid trwy ganiatau iddynt eu cais. Yn wir, nid colled ond ennill mawr iddi fuasai fod mewn undeb cyfeillgar a Hungari. Mae coffrau Awstria yn bresenol yn rhy wag i dalu traul y Rwssiaid. Myn Nicholas ei ddigolledu, ac os na chaiff arian, myn i'w afael ryw dalaeth o'r ymerodraeth: myn hefyd ei *derms* hun, oblegid y mae Awstria yn rhy wan i'w wrthwynebu. O'r tu arall, os caiff Rwssia lawer mwy o bwer yn Europe na sydd ganddi yn bresenol, cyffroir cenfigen y pwerau 'mawrion eraill, a

* Bydd ymosodiad y Ffrancod ar Rhufain yn warth tragwyddol ar Louis Napoleon a'i gynghoriaid. Pe chwilid hanesiaeth y byd am ffaith mor rhyfedd, anhawdd, debygwn, fyddai ei chael. Meddyliaf mai braidd y cred 'cin holafiaid i'r Ffrancod yn y flwyddyn 1849, ymddwyn mor anghysson a danfon milwyr i Rhufain i lethu rhyddid, a hyny ym mhen ychydig fisoedd wedi iddynt hwy eu hunain ddiorseddu eu brenhin a gosod i fyny yr un ffurf o lywodraeth ac oedd y Rhufeiniaid yn amcanu. Ammheuant, o bosibl, p'un ai gwir yw'r hanes, neu ynte dyfais maleisus Toriaid yr oes. Prif ddiben Louis Napoleon, wrth bob tebygolrwydd, yn taro o blaid y Pab, oedd ennill parch ac ymddiried pabyddion Ffrainc. Ond pa fodd bynnag am hyny, yr ydys yn sicr y bydd yr ymosodiad yn ei effaith yn fwy niweidiol i achos Pabyddiaeth yn yr Eidal na dim a gymerodd le yno erioed; oblegid y farn gyffredin yn Rhufain am dano yw iddo gael ei wneuthur ar ddeisyfiad ei sanctaidrwydd. Am hyny mae llawer o'r Rhufeiniaid, os gwir yr hanes, wedi cynddeiriogi at y Pab a'i Gardinaliaid, ac wedi penderfynu peidio myned byth mwy i wrandaw offeren; fel arwydd eu bod mewn difrif, dywedir i Dr. Archilli, yr hwn sydd yn awr yn ngharchar y chwyl-lys, wasgaru yn agos i 50 mil o fiblau yn eu plith mewn llai na phedwar mis. Pe na buasai Ffrainc yn yn ymyraeth a gwerinlywodraeth y Rhufeiniaid, y mae yn lled debygol y gorchfygasai yr Hungariaid eu gelynion, oblegid rhaid fuasai i'r ymerawdwr gadw 60 mil o wyr i ymladd yn yr Eidal.

bydd yn rhaid iddi dynu ei chamrau yn ol, a gadael Awstria a Hungari i sefyll eu tynged. Mae annibyniaeth Hungari yn sicr o gymeryd lle, a hynny mewn ychydig flynyddau. Mae'r Magyars yn ddynion gwrol. Os ydynt wedi methu yn eu hamcan yn awr, gwnaethant ymdrech ardderchog: un etto o'i fath fydd yn ddigon.

Byddai eu hannibyniaeth yn lles hefyd, nid yn unig i'r Hungariaid fel cenedl, ond i'r byd yn greffredinol. Mae'n gywilyddus meddwl fod ffermwyr Hungari yn feddianol ar gymaint o nwyfau masnachol, megys gwenith, haidd, ceirch, tobacco, da, ceffylau, defaid, &c., ac nas caniateir iddynt eu danfon i farchnadoedd y byd, o achos y tollau trymion sydd gan Awstria ar eu mhasnach. Os ystyriwn y cyfan, mae annibyniaeth Hungari yn rhwym o gymeryd lle. Nid oes dim croesach i ddymuniad Twrci na llwyddiant Russia, ac ymledaeniad ei therfynau; oblegid mae amcan gan ymerawdwyr Rwssia er ys tair cenhedlaeth sefydlu eu gorsedd ym mhalas y Sultan, a danfon y Twrciaid ffwrdd o Europe. Hefyd mae annibyniaeth Hungari o'r pwys mwyaf i'r Pwyl. Cyn gynted ag y llwyddo yr Hungariaid i daflu ymaith iau Awstria, ac i gyhoeddi eu hannibyniaeth, mae'r Pwyl yn sicr o wrthryfela yn erbyn Rwssia, ac yn debygol o adferu annibyniaeth eu gwlad a'u cenedl; oblegid cant gynhorthwy cryf gan yr Hungariaid.‡ Dacw Prwssia drachefn a holl fân dywysogaethau Germani. Mae brenhin Prwssia yn llygadu yn genfigenllyd er ys blynyddau ar yr anrhydedd o fod yn ymerawdwr Germani. Am hynny nis gallai dim fod yn fwy dymunol ganddo nag annibyniaeth Hungari a difodiaeth ymerodraeth Awstria: ond mae llwyddiant Awstria a'i hundeb a Rwssia yn rhwystr ar ffordd ei uchelgais. Byddai annibyniaeth Hungari, hefyd yn lles masnachol i Ffrainc a Lloegr. Wrth bob arwyddion, nid ydyw terfyn y rhyfel hwn ond dechrau terfysc yn Europe, oni ddaw rhyw achosion i weithrediad na wyddys am danynt yn awr.

Oni bae fod fy llythyr wedi myned yn feithach nac y meddyliais wrth ddechrau, rhoddwn ychydig o hanes tylwythau Hungari; eu gwlad; eu crefydd; eu cyfreithiau; a'u defodau: ond efallai y caf gyfleustra ryw bryd etto.

D. L. Evans.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y LLYS

Gyda gollyngiad y Senedd ar ddechreu Awst, cychwynodd y Frenhines a'r Teulu Brenhinol ar eu mordaith, i dalu yr ymweliad addewedig—ei hymweliad cyntaf â'r Iwerddon. Arosodd am rai dyddiau yn Cork, yn Dublin, ac yn Belfast. Cafodd dderbyniad croesawus dros ben. Ar yr 8fed o Awst cynnaliodd ei llys yn Dublin yr un modd ag yr arferir ei wneuthur yn Llundain. Derbyniodd gyfarchiadau oddiwrth swyddogion y ddinas, a Choleg Dublin; oddiwrth yr Arch-esgobion ac Esgobion Protestanaidd a Phabaidd; Cymdeithas y Brodyr (Quakers), ac Undodiaid Henadurol yr Iwerddon. Prydnawn dranoeth cynnaliwyd *Drawing Room*, pan yr oed 1500 o foneddigion a boneddigesau yn bresenol. Ar y cyfan ymddengys fod yr ymweliad wedi bod o lês, er heddychu teimladau y bobl Wyddelig. Dywedir fod y Frenhines hefyd wedi ei boddhau yn anghyffredin, ac ei bod wedi hysbysu ei hewyllysgarwch i roddi pardwn i'r rhai hyny sydd yn ngharchar neu mewn alltudiaeth, o herwydd eu cyfranogiad â'r terfysg diweddar. Yn ôl ymadael a Belfast ar y 11eg, ac, wedi croesi'r mor ac ymweled a Loch Ryan, Loch Long, a Loch Goyld, ar ororor Orllewinol yr Alban, tiriodd y Frenhines dydd Mawrth canlynol yn Glasgow: ac oddiyno aeth trwy Perth i Balmoral, lle y mae y llys yn awr yn aros.

---

‡ Nid parch i'r Awstriaid berodd i ymerawdwr Rwssia gymeryd eu plaid; ond ofn, os y llwyddai yr Hungariaid i daflu ymaith iau Awstria, yr annogent ac y cynnorthwyent y Pwyliaid i daflu ymaith ei iau yntau. Nid heb wir achos yr ofna yr Archormeswr wrthryfel yn Ngwlad Pwyl.

Y CHOLERA

Y mae'r dolur hwn wedi bod, yn ystod y mis diweddaf, yn angheuol i lawer yn y cymydogaethau hyny o Forganwg lle yr oedd wedi torri allan, ac i ryw ychydig mewn llefydd newydd. Ar y cyffiniau hefyd, yn y Gwtter-fawr a Cwm-aman, ac yn Nantyglo a Blaenau Gwent, hysbysir i ni fod ugeiniau lawer wedi eu torri lawr ganddo. Ond yn awr, y mae yn dda genym dderbyn yr hysbysiad fod y dolur yn llaesu yn gyffredinol, ac ymron ymadael yn llwyr a rhai cymydogaethau. Gobeithiwn oddiwrth y wybodaeth a'r profiad a gafwyd o'r ffordd oreu i drin a a gwrthsefyll y dolur, a'r ymdrechiadau a wneir i symud budreddi ac amhurdeb, ac i annog syberwyd a sobrwydd, y byd i'r fflangell hon i gael ei symud yn fuan ar hyn o dro. Pa fodd bynag, nis ymedu heb adael ar ei ôl wersi pwysig, i wreng a bonheddig; nid yn ofer, hyderwn.

DAMWAIN DDYCHRYNLLYD.

Ar y degfed o Awst aeth gwaith glo Mr. Thomas o'r Wainwyllt, yr hwn sydd ganddo yn Aberdâr, ar dân, ac anfonodd o'r byd *ddauddeg a deugain* o lowyr mewn eiliad amrant; a saith o geffylau. Yr ydoed mewn tri thy nesaf i'w gilydd naw o feirw, sef tad a dau fab ym mhob un, ac yn y pedwerydd ddau frawd; yn gwneuthur y rhif ddirfawr o unarddeg o feirwon yn y pedwar ty nesaf y naill i'r llall. Yn y trydydd tu ar yr un gwely yr ydoedd William Griffith, un o ddosparthwyr yr *Ymofynydd*, a'i ddau fab yn gorwedd yn gelain ochr yn ochr. Bu eich gohebydd yn dilyn pumtheg corph am dri o'r gloch dydd yr Arglwydd canlynol, ran o'r ffordd i dy eu hîr gartref. Claddwyd un W. Williams, a'i ddau fab, wrth yr Hen dy Cwrdd, bore dydd yr Arglwydd. Aeth chwech ar hugain i fynwent Eglwys y plwyf. Pan dygwyd y rhai oeddent i'w claddu yno am dri o'r gloch y prydnawn, ydoedd deg ar hugain o feddau yn agored, gan na wyddid yn iawn pa nifer ydoedd eisiau. Gellir barnu fod yno le galarus digyffelyb. Gweddwon ac ymddifaid yn cyd-wylo am eu meirw yn wyr, yn dadau, a phlant!! Gan nad yw yr *Inquest* drosodd, nid iawn yw dywedyd rhagor, nag mae dyled llywodraeth yw gwneuthur deddf yn ddioed, i beri i berchennogion gweithfeydd, lle y byddo damwain trwy ddiffyg trefn yn cymmeryd lle, i gadw, a chynnal yr ymddifaid a'r gweddwon, dros weddill eu dyddiau, os ydynt am gael gan y râdd weithgar garu eu Brenhines, a byw yn heddychol.

Gall fod yma hanes ammherffaith am nad oes wybod yn iawn beth sydd i goelio o'r amrywiol ddywediadau; cyn yr ymddangoso yr *Ymofynydd*, cewch hanes mwy cywir, mae yn bossibl, yn y papyrau newyddion. Os felly y bernwch, dywedwch beth y gamglywais.

Ydwyf, &c.

J. JONES.

Terfynodd y treng-holiad Awst y 21ain. y *verdict* oedd, fod y dynion, druain, wedi cyfarfod a'u diwedd trwy *ddigwyddiad;* o achos fod *gas* wedi torri mewn attynt oddiwrth hen waith ag oedd ar bwys. Cynghorent hefyd mewn pob amgylchiad o'r fath fod i'r awyr ammhur oddiwrth hen weithiau i gael ei symud allan yn gwbl ar wahân oddiwrth y gwaith newydd a fyddo ar bwys. GOL.

Y CONFERENCE WESLEYAIDD A'R FLY SHEETS

Pe bai amser a lle yn rhoi, buasem i roddi ychydig o hanes y Conference hynod diweddar yn Manchester, lle y dangoswyd y "droed ebol," neu yn hytrach garn y bwystfil yn ddigon amlwg. Yn ôl rhëolau'r corff, mae'n debyg fod y gweinidogion ymgynulledig mewn conference yn cynrycholi John Wesley. Y peth a benderfynont hwy sydd i gael bod yn drefn sefydledig. Dangosant barodrwydd i ddynwared yr *Inquisition*, mor belled ag y mae eu gallu bach a'u hawdurdod yn cyrhaedd. Yn absennoldeb prawf, lle y maent yn drwg dybied fod neb wedi llefaru neu ysgrifenu yn erbyn anffaeledigrwydd y Conference, galwant ar bob gweinidog i roddi attebiad pendant, pa un ai oedd llaw ganddo ef ai peidio yn y Fly-sheets, y rhai a barasant gymaint o anfoddlonrwydd i benaethiaid y Conference.

Yn eu heisteddfod ddiweddar esgymunasant dri neu bedwar o weinidogion parchus, yn unig am ballu atteb pa un ai oedd llaw ganddynt yn y cyfryw ysgrifeniadau ai peidio, heb gynnyg dwyn un prawf yn eu herbyn. Esgymunwyd dau arall am ballu addaw peidio anfon hanes y Conference i'r Wesleyan Times.

CYDYMDEIMLAD A'R HUNGARIAID

Y mae y cyfarfodydd aml lluosog a gynnaliwyd i'r perwyl uchod yn ystod y mis diweddaf yn Manchester, Birmingham, a threfydd eraill yn y taleithau, yn dangos fod cydymdeimlad a'r Hungariaid yn eu hymdrech dewr yn mhlaid eu rhyddid cenhedlaethol, yn gryf iawn ac yn bur gyffredin trwy'r wlâd. Y mae lle i obeithio na fydd yr ymddangosiad yma o blaid cenedl orthrymedig, ddim yn gwbl ofer. Dywedir ei fod esioes wedi peri cryn gyffro yn meddyliau trigolion y cyfandir. Er nad ydoedd yn ddigon i attal rhwysg y goresgynwyr, y mae yn debyg a fod gyda moddion er-

aill yn effeithiol er attal dialedd y rhyfelwyr gorchfygol, ac na chaiff Hungari fyned yn anrhaith i'w threiswyr.

FFRAINGC

Y mae rhyw lonyddwch rhyfedd trwy holl Ffraingc; ond y mae lle i feddwl nas bydd o hir barhad. Nid oes dim o newydd ag sydd werth ei nodi, oddieithr, yn wir, y Cyfarfod Heddwch (Peace Congress) ag sydd yn cael ei gynnal yn Paris y dyddiau hyn. Deallwn fod dros 800 wedi myned drosodd o'r wlâd hon i fod yn bresennol yn y Cyfarfod, a bod cynrycholwyr yno o'r America, a Belgium, yn gystal ag o wahanol daleithau Ffraingc. Yr enwog Victor Hugo yw y Cadeirydd. Hyderwn y galluogir ni i roddi hanes y Cyfarfod a'i benderfyniadau yn ein Rhifyn nesaf.

YR ITAL

Y mae Piedmont wedi dyfod i gyttundeb ag Awstria: ac yn gorfod boddloni i dalu traul y rhyfel diweddar a ddygwyd ymlaen mor aflwyddianus gan Charles Albert. Druan a Charles Albert! Bu farw ychydig wythnosau yn ol yn Portugal, o siomedigaeth a thorcalon, digon tebyg. Y mae *Venice* wedi gallu amddiffyn ei hun yn erbyn yr Awstriaid yn rhyfedd hyd yma. Yn yr amgylchiadau presennol, nis gellir disgwyl iddi ddal maes lawer yn hwy.

RHUFAIN

Dywed y Newyddiadur Ffrengig, La Presse, fod cennadwri wedi ei anfon o Ffraingc at y Pab, i'w hysbysu fod Gen. Oudinot wedi myned tu hwnt i'w awdurdod yn ei waith yn rhoddi llywodraeth Rhufain yn gwbl i swyddogion y Pab a'i Gardinaliaid. Bod Ffraingc yn benderfynol i gael y gair diweddaf yn mhob cyttundeb ar ail-sefydlu trefn-lywodraeth y Pab. A'r Pab yntau, nid yw yn dangos fod ganddo un awydd i ddychwelyd yn fuan i'w brif-ddinas.

AWSTRIA A HUNGARI

Tua chanol y mis diwedaf yr oedd y newyddion o faes y rhyfel ar y cyfan yn ffafriol i'r Hungariaid. Ond yn mhen ychydig ddyddiau, yn groes i obeithion a disgwyliadau carwyr rhyddid daeth y newydd disymwyth fod Görgey wedi ymostwng a rhoddi ei fyddin i fynu i'r Rwssiaid, a bod Bem a Dembinsky wedi cael eu gwerthu mewn amryw frwydrau, a'i byddinoedd wedi cael eu gwasgaru, a hwythau ynghyd a Kossuth wedi gorfod ffoi.

Rhai o'i papurau a ddywedant fod Görgey wedi derbyn gwobr; eraill, iddo ymostwng wrth gyngor rhai ag oeddent yn ewyllysio yn dda i'r Hungariaid. Y mae cymaint o dywyllwch ac ansicrwydd ynglyn â'r hanes o'r amgylchiad yn y modd y mae wedi cyrhaeddyd attom, fel na wyddom yn iawn pa beth i ddywedyd. Erbyn y byddo y Rhifyn yn nwylaw ein darllenwyr, bydd pob amheuaeth ac ansicrwydd ynghylch y peth, ond odid, wedi ei symud; a bydd y rhan fwyaf o'n derbynwyr yn gwybod yn well nag y gallwn ni wybod yn awr, pa beth sydd mewn gwirionedd wedi cymeryd lle, a thrwy ba foddion y dygwyd oddiamgylch. Y mae ymron yn sicr fod Temeshvar, a Grosswarden, ac Arad, yn meddiant yr Awstriaid a'r Rwssiaid; ac os gwir yw fod Kossuth a Bem a Dembisky wedi diangc i Twrci, rhaid fod y rhyfel wedi terfynu. Ar y gwaethaf y mae yn ffaith ddigon adnabyddus, os gorchfygwyd yr Hungariaid, mai nid gan yr Awstriaid y gwnaethpwyd hyny, ond gan yr ugeiniau ar ugeiniau o filoedd o Rwssiaid, y rhai a ddaethant i'w cymhorth.

GOFYNIADAU.

Mr. Gol.—Yr wyf ddarllenwr cysson o'ch cyhoeddiad oddiar ei gychwyniad, a sicrhaf i chwi fy mod yn mwynhau cryn blesser, ac yn derbyn adaeladaeth wrth ei ddarllain. Y mae gennyf un cais attoch yn bresennol, sef crefu arnoch chwi neu ryw un o'ch gohebwyr deallus i ysgrifennu traethawd, yn cynnwys eich barn am y "*Diafol;*" dadleu mawr sydd yn ei gylch ef. Rhai yn dywedyd mae efe oedd y prif actor yn Eden, &c. eraill yn barnu mae egwyddor sydd i'w feddwl wrtho: meddyliwyf o ddifrif y byddai ychydig ar y testun yn dderbyniol, ac nid yn unig hynny, eithr yn anghenrheidiol y dyddiau hyn: da chwi Mr. Gol. gadewch i mi erfyn arnoch osod traethawd yn yr *Ymofynydd.* Neu os nad oes amser gennych chwi, fe allai y cymmer fy hen gyfaill am cyd-ysgolhäig gynt y gorchwyl mewn llaw, sef Mr. D. L. Evans, Penybont. Gyda dymuniad am lwyddiant yr *Ymofynydd* a lledaeniad egwyddorion da, y gorphwysaf,

Yr eiddoch yn barchus,
RHYS S. DAVIES.

Brynhafod ger Caerfyrddin,
Gorphenaf 14, 1849.

MR. YMOFYNYDD,

Gobeithiaf y caniatewch i'r hyn a ganlyn ymddangos yn yr Ymofynydd.

Ar foreu dydd Sabboth yn ddiweddar cefais bregeth nodadwy gan weinidog parchus, a gair mawr iddo gan y Iawn-ffyddwyr, ar Esay ix. 6. Wedi adrodd y testun, dywedodd y gwr parchus fod rhai dynion yn darllen yr adnod fel y canlyn, "Cynghorwr i'r neu dros y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb &c." ac nid "y Duw cadarn," a'i fod ef o'r farn, os oedd rhai yn is na'u gilydd mewn poenau yn uffern fod y dynion hyny yn isaf o bawb. Aeth y gwr parchus yn mlaen i brofi fod "bachgen wedi ei eni i ni a mab wedi ei roddi i ni, a bod y llywodraeth ar ei ysgwydd ef, a bod ei enw yn rhyfeddol;" aeth heibio iddo fel "cynghorwr," heb ddyweyd nemawr o ddim, ond haerodd ddigon ei fod "yn Dduw cadarn a Thad tragwyddoldeb:" dywedodd ei fod yn cael ei alw "yn Dduw cadarn" yn llawer o fannau yn y Bibl; a bod yr Efengyl yn cael ei galw "yn Efengyl dragwyddol," ac efe, sef Iesu Grist oedd "Tad yr Efengyl ac yn ganlynol tad tragwyddoldeb:" profodd hyny yn y Diar. viii. 22-31.

Yn awr, yr wyf yn gofyn a oes rhyw le arall yn y Bibl yn gosod Crist allan yn Dad tragwyddoldeb heblaw yr adnod uchod yn Esay?

Yn ail, pa un fwyaf o reswm sydd yn yr adnod yn ol dull y gweinidog o'i darllen, neu yn ol dull y dynion a gondemniodd neu a gollfarnodd y gwr parchus hwn?

Yn drydedd, onid yw ei ddull ef o egluro'r adnod dan sylw yn tueddu i osod y prophwyd allan yn dywedyd ac yn gwrthddywedyd ei hun, neu yn gwneuthur yr adnod yn anghysson ac Esay xlii, 1—8. xlix. 1-8, ac lxi. 1-3.?

Hybarch olygydd, byddaf yn dra diolchgar i chwi neu i ryw un o'ch gohebwyr, am eglurhâd byr a chynhwysfawr ar Esay ix. 6. yn gysson a'r adnodau a nodir uchod: rhoddai hyn foddlonrwydd i lawer heb law eich ewyllysiwr da mewn rhwymau cariad.

Glanffrwd, Sir Fynwy. W. R.

Awst 13, 1849.

MR. GOL.

Bu bwriad gennyf lawer gwaith i ofyn i chwi yn gyhoeddus beth ydyw'r achos yn ol eich barn chwi neu rai o'ch gohebwyr fod Trindodiaid o bob math—yn bregethwyr ac yn wrandawyr—mor elynol i Undodiaeth? Cymaint yw'r gelyniaeth atti fel y gwelir yn gyffredin y pregethwyr Trindodaidd o'r Doctoriaid a'r MAs a'u magnelau mawrion, i lawr hyd Jacks Brutus a'u cleddyfau pren, yn wastad tan arfau yn ei herbyn. Mor gymeradwy yw y *Crusade* hyn gan y werinos, fel braidd na ystyrir neb yn addas i fod yn bregethwr deg a'r gloch yn y Gymanfa oni bydd yn bencampwr ar y gwaith o senu "Sosiniaid." Hefyd, Mr. Gol. os gennych chwi mae'r gwirionedd, paham na byddai rhagor o lwyddiant yn eich hachos? Atteb buan a foddlonai,

UN O'R WERIN.

Meddylier fod dwy belen yn symud dros ford *round*, un ar hyd y tryfesur, 1 droedfedd y foment gyntaf, 2 yr ail, 3 y trydydd, &c. ar llall ar hyd yr ymyl, 1 droedfedd y foment gyntaf, 4 yr ail, 9 y trydydd, &c.; ac i fod un yn myned tros yr ymyl tra mae'r llall yn myned ar hyd y tryfesur. Pa faint yw tryfesur y ford, ac mewn sawl moment y gwnant eu taith?

MARWOLAETHAU

Mehefin 20, bu farw ger Marietta, Ohio, Gog. Amer. yn 29 oed, Mr. David Williams.

Ganwyd Mr. D. Williams yn Aberdauddwr, plwyf Cayo, ar y 22 o Fedi, 1820. Enwau ei rieni oedd Thomas a Jane Williams. Bu farw ei dad yn 1824. Ym mhen saith flynedd ar ol hyn priododd ei fam a Mr. Timothy Davies o'r Gelly, Llanycrwys. Ar yr amgylchiad symudodd ei thad a'i mham i fyw i Aberdauddwr, lle bu David yn cartrefu gyda 'r hen bobl, ac yn myned i'r ysgol dan ofal Dr. Davies o Ffrwdyfâl. Pan yn 14 oed cafodd ei osod mewn siop yn Llambedr, lle y bu, ynghyd a Chaerfyrddin a Llandilo, nes oedd yn 16. Pryd hyn symudodd i'r Casnewydd at siopwr o'r enw Mr. Dew. Cafai ei feistr ei foddloni gymaint ynddo, fel y cymerodd ef ganddo i Lundain i weled coroniad y Frenhines. Ymadawodd drachefn oddiyno yn mhen yspaid, ac, fel y gwna rhai ieuenctyd dibrofiad, ac o gyfansoddiad anturiaethus, ymrwymodd ei hun yn filwr yn Woolwich, lle yr arosodd am dri mis nes gwaelodd ei iechyd. Ar ddymuniad ei berthynasau prynodd ei ryddid Ymadawodd gyda chymeradwyaeth barchus ei officer, yr hwn a addawai ei gyfodi i sefyllfa uwch os arosai. Ym mhen ychydig wedi iddo ddychwelyd adref, gosododd siop i fyny yn y Cwrtnewydd, Ceredigion, lle y bu am flynyddau yn barchus fel masnachwr onest, a hoff gan hen ac ieuainc. Yma ymgofleidiodd yr athrawiaeth Undodaidd, a bu yn wrandawr cysson gyda ei phleidwyr. Yn 1842 priododd a Miss Sarah Rees, merch ieuengaf y diweddar Rees Rees, Ysw. o Gilgell, Penycarreg, yr hon a fu yn fendith fawr iddo. Symudodd y flwyddyn ganlynol i'w hen anneddle, sef Aberdauddwr: ond nid oedd ei gynneddfau bywiog wedi ei addasu i fod yno yn hir. Symudodd ef a'i deulu oddiyno drachefn i Aberdâr, lle yr arhosodd flwyddyn yn barchus gyda chyfeillion lawer. Cartrefai gyda'r gwr cyfeillgar a dysgedig hwnw, y Parch. J. Jones, Gweinidog yr Undodiaid yn Heol-y-Felin. Yn 1847 ymfudodd i America gyda ei frawdynghyfraith, Mr. Thomas o Bontfaen, Cellan. Ymsefydlodd

yn Philadelphia, lle bu yn cadw llyfrau ystordai mawrion. Yma y trawodd yn ei ben i ddysgu y *Daguerrotype Art*, a bu yn llwyddianus iawn yn y gelfyddyd. Ar symudiad ei frawdynghyfraith i'w fferm yn agos i Marietta, Ohio, gadawodd yntau Philadelphia, ac arhosodd dros ychydig yn Marietta, nes y cafodd le cyssurus i fyw ynddo yn y wlad. Yma yn ddiau, y meddyliai wneuthur ei artref; ond brau ac ansertenol yw bywyd: yn mis Mehefin cymerwyd ef yn glaf iawn gan *inflammation of the Kidneys*, ac ar yr 20 gorphenodd ei yrfa. Pregethodd un o'r *Universalists*—plaid ag oedd ef yn hoff o honynt—yn ei angladd, oddiar Dat. xxi. 4.

Gadawodd weddw a thri o blant bychain i alaru ar ei ol mewn gwlad estronol. Yr oedd yn briod a thad o'r mwyneiddiaf, a chyfaill gwresog a diragrith. Gwelodd lawer o ofid yn ystod ei yrfa fer. Meddai ar deimladau tyner a boneddigaidd: ei gyfeillach a hoffid gan rai o'r un natur. Meddai gynheddfau meddyliol dysglaer. Mawr oedd ei hoffder mewn peroriaeth; meistrolai offeryn cerdd o bob math mewn ychydig amser. O ran cyfansoddiad, yr oedd yn fywiog. Medrai wneuthur ei hun yn dderbyniol gan bob gradd. O'r tu arall, yr oedd yn ddiffygiol mewn diysgogrwydd—hoffai gyfnewidiad: yr oedd o dymher mor wresog a chyfeillgar fel y gwnelai gyfeillion o rai nad oedd eu cyfeillach o lês. Ychydig o ddynion ieuainc sydd yn rhydd oddiwrth y gwendid hwn: profiad yw'r unig feddyginiaeth. Diameu, pe buasai byw i ddysgu oddiwrth y gwersi profiadol a gafodd, buasai ei dalentau galluog yn ei gyfodi i sylw. Dywedai yn fynych ei fod yn ddiolchgar am danynt, ac yn enwedig am y tymhor y bu yn y fyddin; "Dyna," meddai, "y Cwarter ysgol goreu a gefais erioed."

"No farther seek his merits to disclose,
Or draw his frailties from their dread abode;
There they alike in trembling hope repose,
The bosom of his father and his God."

S. ———

Bu farw, Gorphenaf 30ain, John Ifor, mab Mr David Evans, Cwmdu, ger Llandilo.

Iengyn tawel ymadawodd
Er ei les a'r fuchedd hon:
Gorthrymderau'r byd a'i ingo'dd,
Ni artrefant dan ei fron.
I'w dir cynnwyd y dychwelodd,
Effaith amser—newid gwedd,
Anniddanwch hen flynyddo'dd
Diogel rhagddynt yw'n ei fedd.

Yn ei fedd yr huna'n dawel,
Heb fydolrwydd o un rhyw,
Hyd udganiad yr Archangel,
Pan adgyfyd ac i fyw.
Byw mewn byd heb ddim tywyllwch,
Trais, na gaugyfeillion trist:
Byw—a byw ym mhob dedwyddwch,
Byw yn Nheyrnas Iesu Grist.

Gynnau 'doedd ond mab dyn meidrol,
Deiliad byd gresunol sydd;
Bellach mab i'r Duw anfeidrol,
Deiliad gwynfa nefol fydd.
Rhwygo 'mron a hiraeth calon,
Beichio mynwes, afles yw:
D'wedaf gyda Job yn foddlon,
"Bendigedig fyddo Duw."

D. EVANS.

Cwmdu, Awst 13, 1849.

Bu farw, Awst y 4edd, yn 40ain mlwydd oed, yn Llangrallo ger Penybont-ar-Ogwr, Mary gwraig William Morgan, o'r lle uchod, a merch y diweddar Henry Davies, Bryncarnau, Plwyf Kilbebyll. Yr oedd yr ymadawedig yn rhagori ar y cyffredinolrwydd o wragedd mewn synwyr a phrydferthwch ymddygiad. Perchid hi yn fawr gan ei chymydogion fel gwraig ddiwyd, dawel, a rhinweddol. Yr oedd yn gydmar ffyddlon, ac yn fam dyner a synwyrol; ac i dyb yr ysgrifenydd, yn rhagori ar famau yn gyffredin, yn y modd y dygai i fynu ei phlant bychain, y rhai a adawyd ar ei hôl yn rhy ifaingc i deimlo y golled a gawsant. Cyn marw dywedodd ei bod hi, gyda llwyr ymddiriedd, yn eu gadael i ofal rhagluniaeth Duw. Oddiar ddechreu ei gyrfa grefyddol yn y Gellionnen, hyd ddydd ei marwolaeth, yr oedd yn Undodiad zelog a chyson. Athrawiaethau Undodaidd roddent y cysur pennaf iddi ar wely Angau. Hunodd yn dawel ac yn hyderus yn yr addewid mawr trwy Iesu Grist. I.

Ar y 6fed dydd o Awst bu farw y wraig rinweddol hynno, Mrs. Jones, gwraig Mr. Josiah Jones, Dolwen Llanwenog, Ceredigion, yn 72 oed. Bu yn aelod hardd a chymmeradwy iawn am lawer o flynyddau yn Alltyblacca yn yr un plwyf. Ac ni chafwyd achos gan dafod yr enllibus yn ei herbyn. Oedd un nodedig am ei chareiddwch a'i helusengarwch, ac adweinid ei thrigfan gan dylodion pell ac agos. Ni waeth pa genedl, pa farn, nag o ba le, pan deuent atti ni chaent fyned addiyno yn waglaw, er fod niferoedd yn ngylch yr wythnos yn galw wrth ei drws. Disgynodd mewn oedran teg er dan gystudd mawr, i ddistawrwydd y llwch, lle y gorwedd yn Mynwent Llanwenog hyd ddydd "orn y corw mawr," pan trwy allu grymus awdwr bodoliaeth y dygir hi i adnewyddiad bywyd tra pharaus y bythol fyd. Claddwydd hi y dydd Iau canlynol, a cher bron rhyw dorf fawr y gwasanaethodd, trwy ddechreu y cyfarfod, y Parch. Rees Davies, Capel y Groes, a'i ddiweddu wrth y drws gan y Parch. J. Davies, Castellnewydd. Pregethodd y Parch. T. Griffiths, Caeronnen, ar Parch. D. Evans, Hendyrdolau, cydweinidog Mr. Davies, yn Alltyblacca, &c.

Mam anwyl oedd yn Eglwys Crist,
Ac ar ei hol yr ym oll yn drist?

Y weddw ar ymddifad sydd,
Mewn aeth o'i gosod yn y pridd,
I Gymru ni chyfyngai 'i stôr,
Oedd dda i'r rhai ddoent dros y môr,
O Werddon lwyd-wedd le tylawd,
I rhain rai blin rhoai rai ran o'i blawd.
Gorwedda'n dawel, anwyl chwaer,
Dros 'chydig bach yn ngrombil da'er!
Cofodi'r lan ar newid gwedd
Ar naid sydd hawdd i wlad yr hedd.

TAU GIMEL.

Bu farw Awst yr 20fed. yn 68 mlwydd oed, Mr. Rees Lougher, Pwll-y-gwlaw, Cwmavon; gynt o'r Dyrfol ger y Wig, Morganwg. Cofir ef gan ei hen gymydogion fel dyn tawel, didwyll, a chymwynasgar. Yr oedd mor barod a nemawr o neb i roddi ei ysgwydd dan achos da: bu yn Undodwr zêlog dros hir flynyddau.

BARDDONIAETH.

CRWYDRYN YMDDIFAD.

Ton.—*Ty fy Nhad.*

Mor hyfryd gan y crwydryn pell,
Fo'n llwm ymdeithio'r wlad;
Yw cofio caiff ddyddanwch gwell,
'Nol cyrhaedd ty ei dad;
Can's yno mae anneddle glyd,
I'm roddi 'mhwys i lawr;
Paham gan hyny crwydraf cyd
Heb gartref fynyd awr?

Dynesu wnaf o gam i gam,
Tua bwthyn bach y co'd;
Lle gwelais gannwaith fys fy mam,
Mor chwyrn yn troi y rhod;
Pan es i mewn i'r 'stafell glyd,
Try'n bryddaidd iawn fy hynt;
Wrth wel'd dyeithrwch pawb, a'u bryd
Mor groes i'r teulu gynt.

Ar lan y nant mae'r fedwen fawr,
Lle torais wiail fyrdd;
A thacw'r iorwg acw'n awr,
Uwch ben y drws yn wyrdd;
Pob peth o gylch y ty mor hardd,
Ymlona'r fynwes lan;
Ond b'le mae'r groesaw diwahardd
Fel cynt im nesu 'mla'n?

Pa le y mae'r cyfeillion mad,
Brydferthant gylch y tan;
Gan arfer gweini gwir leshad,
I bawb pan dd'ont i mla'n?
Gwasgarwyd hwynt tros bant a thwyn,
Dychwelais inau 'nol;
Ac wele 'r pencynghorwyr mwyn
O'm golwg dan y ddôl!

Eisteddais lawer gwaith mor glyd,
Ar y ddau bentan fawr;
Yn gwrando holl gynnwysiad bryd
Fy Rhiaint teg eu gwawr;
Ond darfu darfu'r hyn a fu,
'Does dim i mi yn awr;
Ond adgoffhau yr oriau cu,
Gan wylo'n lli i'r llawr.

Yr hwrdd a chweru ar y bryn,
Yn hawddgar fel erioed;
A'r adar man a'u tannau'n dyn,
Berodlant lenau'r coed;
Anghofia 'rhain y fynwes glyd,
Ymdaenodd trostynt hwy;
Ond galar crwydryn tra bo byd,
Aiff eilwaith eilwaith fwy.

Fe geir gan ddynion gydymddwyn,
A'th helbul fwy na mwy;
A theimlad llawer cyfaill mwyn,
A rana'r dorth yn ddwy;
Ond pa ryw deimlad hoffa' sydd,
Pan welir di'n cael cam;
A sycha'r deigryn ar dy rydd,
Mor fwyn a thirion fam!

Nid un rhinweddau rhagor sydd,
Gan lawer mam a thad,
A wnaeth y fynwes hon mor brydd
Adgoffa'r oriau mad;
Ond rhyw deimladau rhywiog rhydd,
Fynweswyd trwyddynt hwy;
Bar i mi chwennych gwel'd y dydd,
Cawn gwrdd heb 'madael mwy.

Dinas y Glo. LLEIAF.
Awst 7, 1849.

AT EIN GOHEBWYR

Derbyniwyd O. Evans; J. Jones; E. Glancynon; Lleiaf; W. R.; Tau Gimel; D. Evans; D. L. Evans; a Q.

Penybont: Argraffwyd gan William Winstone, yn ei Agraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Medi, 1849.